

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 375 - 60c
Gorffennaf 2019

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanyby, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Tymor y
Twrnaint
Pêl-droed**



Tudalen 5

**Cadwyn
Cyfrinachau
Arall**



Tudalen 9

**Gŵyl
Cyhoeddi
2020**



Tudalen 13,14 a 15

Llongyfarchiadau



Aelodau Clwb Llanwenog yn llawn gorfoledd wedi eu llwyddiant i ennill Rali C.Ff.I. Ceredigion a gynhaliwyd yn Lledrod yn ddiweddar.



Ysgol Llanllwni yn ennill cystadleuaeth Fformiwla F3D ar ddydd Sadwrn, Mehefin 22ain. Llongyfarchiadau i dim "Lledrith Llachar Llwni".



Beicwyr Sarn Helen a fu wrthi'n seiclo 250 o filltiroedd i godi arian er budd Parkinson's.



Ar ôl bron i bedwar degawd o wasanaeth i Gartref Gofal Preswyl Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan mae Dilys Megicks ac wedi ymddeol o'i swydd fel rheolwr ddiwedd mis Mehefin, ar ôl gwasanaethu am 38 mlynedd a chwe mis yn y cartref. Ar 29 Mehefin, cyflwynodd y cadeirydd Kistah Ramaya dusw o flodau a thalebau anrheg iddi, i gydnabod a gwerthfawrogi gwasanaeth hir ac ymroddedig i'r Cartref, a dymunodd yn dda iddi yn ei hymddeoliad.



Llongyfarchiadau i Eileen Davies, Gwndwn, Llanllwni ar gael ei anrhydeddu yn Archddiacon Ceredigion.



Ysgol Y Dderi yn datlu pen-blwydd Sali Mali yn 50 oed.

Rali C.Ff.I. Ceredigion



Brenhines y Sir am eleni yw Elen Lloyd-Jones ac Endaf Griffiths yw Ffermwr Ifanc y Flwyddyn a'r ddau o Glwb Pontsian. Eu dirprwyon yw (o'r chwith) Rhodri Sion Griffiths, Clwb Llangwryfon, Carys Mair Jones, Clwb Bro'r Dderi, Mared Lloyd-Jones, Clwb Llanddewi Brefi a John Jenkins, Clwb Lledrod.

Priodas Dda



Ganol mis Mai unwyd Rhian Wilson â James Llewellyn mewn priodas yng Nghapel Brynhafod, Gorsgoch. Yn y llun hefyd gwelir ei merch fach Bethan Haf. Maent wedi ymgartrefu yn Salem ger Llandeilo. Pob hapusrwydd i chi yn eich bywyd priodasol.



Eleri Twynog a Paul Humphreys wedi eu priodas yng Nghapel Tabernacl, Aberteifi ar yr 8fed o Fehefin



Uchafbwyntiau'r mis ar
clonc360.cymru

● KNOCKOUT LLANYBYDDER

Ar y 26ain o Fai, cynhaliodd Pwyllgor Pentref Llanybydder ein diwrnod 'It's a Knockout'.

Er y tywydd, cawsom ddigwyddiad llond sport, ac fe wnaeth y timoedd i gyd a gymerodd ran ymdrech ffantastig.



Hwyl Knockout Llanybydder. Llun: Meir Williams

● SIÂN ELIN YW ENILLYDD CYNTAF TALENT MEITHRIN - MEITHRIN TALENT

Siân Elin Williams o Bencarreg yw enillydd cyntaf cystadleuaeth arloesol i ddod o hyd i dalent newydd i ddiddanu plant ifanc rhwng 2-4 oed a'u rhieni.



● PYPEDAU'N DOD Â GWOBRAU!

Pypedau oedd yn arwain y ffordd wrth i ysgolion cynradd ardal Clonc gipio nifer o wobrau crefft yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



● SBORT A SBRI A STWFFIO

Does dim byd gwell na phryd o fwyd a chlonc pa bynnag oedran y'ch chi! Dyna dwi'n meddwl mae 'Clwb Stwffio' Pwyllgor Apêl Ceredigion 2020 Tref Llambod yn gynnis i'r gymuned leol.



Ffili aros tan y papur nesa'?
- clonc360.cymru

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Gorffennaf Marian Morgan, Rhydyfelin, Drefach 481855
Medi Elaine Davies, Pen-y-nant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, Drefach 480590
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmman Sian Roberts-Jones, Croesor 423313
Cwmsychpant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafof 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmeri 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmman 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
Ysgrifennyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Cwlwm cymuned

Erbyn i'r rhifyn yma o Clonc ddod o'r wasg, fe fydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020 wedi'i chyhoeddi. Rwy'n rhagweld y bydd trigolion y sir yn dod at ei gilydd mewn cyfres o weithgareddau drwy'r wythnos mewn gwahanol gymunedau. A da fod yr ardal hon – a thref Llanbedr Pont Steffan yn benodol – yn cael sylw haeddiannol. Os ydych chi'n broffwyd, fe dybia i y bydd capel mawr Soar yn gyfforddus lawn. Mae'n gymanfa ganu ar gyfer y sir gyfan wrth gwrs, a theg yw disgwyl i'r lle fod yn llawn. Ond tybed faint o'r rhai ddaw ynghyd sy'n cefnogi eu cymanfaoedd canu lleol? Tybed ydi'r camerâu teledu o bosib yn 'help' i ddenu rhai cantorion? Gobeithio fy mod i'n anghywir, ond o wybod mor wan yw rhai o gymanfaoedd canu cefn gwlad gorllewin Cymru erbyn heddiw, byddai'n wych gweld cynulleidfao gref yn Soar yn dyst i ryw adfywiad cerddorol a diwygiad ysbrydol! P'r un bynnag, gobeithio y cawn fel ardaloedd ac fel sir flwyddyn arall lewyrchus yn cydweithio ac yn paratoi ar gyfer Prifwyl 2020 yn Nhregaron.

Yn ogystal â'r sir yn dod at ei gilydd ar gyfer cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol, mae'n rhaid talu gwrogaeth i'r rhai sydd wedi dod at ei gilydd i sefydlu Gŵyl Fwyd newydd yn Llambled. Mae'n destun tristwch a siom o wybod am hanes diweddar y Ffair Fwyd a'r Ford Gron. Ond yn hytrach na chanolbwyntio ar y negyddol, mae gweld pobol yn cydweithio er budd y gymuned yn beth hyfryd a chadarnhaol. Diolch i'r criw gweithgar sydd wedi gweld gwerth yn un o brif ddigwyddiadau'r dref, y ffair fwyd, a dymunwn yn dda i'r Wyl Fwyd ar ei newydd wedd. Yn yr un modd, diolch nad yw bechgyn y Ford Gron wedi anobeithio a rhoi'r ffidil yn y to, a chefnogwn nhw yn eu hymdrech i barhau i wasanaethu'r gymuned ac i gefnogi elusennau lleol.

Felly, mwynhewch yr haf – gan obeithio y cawn ni dywydd hafaidd cyn bo hir! A joiwch gefnogi eich digwyddiadau lleol a chymunedol.

Cloncen

CYMRAG

Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

Sicrhewch eich newyddion
yn y papur hwn. Peidiwch
â disgwyl i rywun arall
ei gynnwys ar eich
rhan. Mae'n rhy hwyr i
achwyn ar ôl i CLONC
ymddangos.

Nid yw'r golygydd o reidrydd
yn cytuno ag unrhyw farn
yn y papur hwn.

FUW
Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.
Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.
Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llambled
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556
www.fuwinsurance.co.uk

DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services
Gas/LPG & Oil Services
Renewables ■ Installation
Maintenance ■ Breakdowns
Boiler Servicing ■ Sprinklers
07969 289679
d.doughty@bt.com

Lifestyle Kitchens
CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR
SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257
www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

E. JONES
PLUMBING & HEATING LTD
01570 480 108
07811 701 857
office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



GORFFENNAF

- 5 Noson o hwyl a sbri yng nghwmni Lleisiau'r Werin ac eraill yn y Llew Du, Llanybydder am 7.30y.h. Yr elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.
- 5 Helfa Drysor – car cyntaf yn cychwyn am 6.00y.h. o Eglwys Llanwenog ac yn gorffen yng Ngwesty Cross Hands, Llanybydder.
- 6 Sioe Amaethyddol Llanbed ar gaeau Pontfaen.
- 7 Diwrnod Hwyl Llanllwni ar gaeau chwarae y pentref. Trefnir gan Bwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol ynghyd â'r Ysgol Feithrin a'r C.Ff.I. Carnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, stondinau, sêl cist car, barbiw a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.
- 7 Cyngerdd Blynyddol Capel Maesyffynnon, Llanybydder yn Ysgol Y Dderi am 7.30y.h. Y Côr gwadd yw Côr Merched Soar o ardal Tregaron Pris Mynediad £5.
- 13 Diwrnod Hwyl i'r Teulu tuag at Eisteddfod 2020 11.00yb yn Llanfair a 2.00yp yn Neuadd Cellan.
- 14 Taith Tractorau Llanybydder gan ddechrau o'r Clwb Rygbi am 10.30yb.
- 18 Noson goffi Eglwys St Luc Llanllwni yn y Neuadd Gymunedol am 7.00y.h.
- 20 Cneifio Llambod yn Fferm Capeli i ddechrau am 8.00yb.
- 22-25 Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd.
- 25-28 Arddangosfa Gelf Llanfair Clydogau.
- 26 BBQ yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.
- 27 Gŵyl Fwyd Llanbed ar dir y brifysgol gan ddechrau am 10yb.
- 28 Trip blynyddol Eglwys Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi.

AWST

- 3 Carnifal Llanbed ar Gae Rygbi'r Dref.
- 11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 18 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
- 24 – 26 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Bro Pedr, Llambod.

MEDI

- 14 Ffair Ram, Arddangosfa Hen Beiriannau a Thaith Tractorau ar gae pentref Cwmann.
- 14 Aduniad Ysgol Llanfihangel-ar-Arth 1934-1977 rhwng 1-5y.p. Lluniaeth £5. Os am fynychu cysylltwch â Heather 480163 / Rhian 07989 684971 / Shân 07968 077242.
- 14-15 AGM C.Ff.I. Cymru yn Aberystwyth.
- 28 Cyngerdd Dathlu Côr Cardi-Gân yn 20 oed yn Theatr Felinfach yng nghwmni Rhys Meirion ac Aled Wyn Davies. Tocynnau ar werth o'r theatr 01570 470697.
- 29 'Pop up Pub' yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. Cyfle i wyllo gêm Rygbi Cymru yng Nghwpan y Byd. Elw tuag at Cronfa Leol Llanwenog a Llanwnnen Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.
- 30 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa, Llambod am 7.00y.h.

HYDREF

- 1 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
- 1 Cwrdd Diolchgarwch Capel Brynteg am 7.00y.h. Y Parch. Densil Morgan.
- 12 Noson arbennig yng nghwmni Cwlwm, Delwyn Sion ac Ifan Gruffydd. Ffreutur Coleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant am 7.30 £15 yn cynnwys lluniaeth ysgafn. Tocynnau gan Bwyllgor y Gronfa. Ann Morgan 07791 966122 neu Carys Lloyd Jones 07976 645957.
- 18 Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion.
- 20 Oedfa Ennyd Gobaith yn Eglwys San Pedr, Llambod am 2.30y.p.
- 26 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint.
- 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

Wedi meddwl hysbysebu
yn eich papur bro?
Ceir prisiau rhesymol
iawn
gan ddechrau gydag
hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg
ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**Mae CLONC wastad yn chwilio
am bobl newydd i helpu.**

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu
dynnu lluniau?*

*Hoffech chi weinyddu'r wefan?
Neu beth am waith dylunio?*

*Rydym yn chwilio am swyddogion
hysbysebu a swyddogion gwerthiant.
Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno
â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



**Registered
Business**

Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757
Epost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r
ddae'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Beicio er budd Parkinson's

Ar ddydd Sadwrn 22ain o Fehefin fe ddaeth grŵp o feicwyr Sarn Helen sef Tim Strang, Eric Rees, Dorian Rees, Teifion Davies, Carwyn Davies ac Owen McConochie at ei gilydd i godi arian i elusen Parkinson's UK. Enw'r her oedd Dawn till dusk sef seiclo o'r gwawr i'r gwyll. Dechreuodd y beicwyr am 4:55 y bore o glwb rygbi Llanbed tuag at Dregaron ac yna ymlaen i Swyddffynnon, Pontrhydfendigaid ac yna nôl i Dregaron cyn dychwelyd ar yr heol gefn nôl trwy Llanddewi tuag at Cwmann. Roedd un lap yn gyfaswm o 37 milltir a chyflawnwyd 6 lap o'r daith lawn ac un lap yn llai o amgylch Dregaron cyn gorffen y daith yn Nghlwb Rygbi Llanbed am 9.45 er mwyn cwblhau cyfanswm gorffenedig anhygoel o 250 milltir. Bu'r bechgyn yn seiclo am 16 awr a 45 munud gyda llawer o feicwyr yn ymuno yn ystod y dydd i wneud rhan o'r daith. Camp a hanner. Roedd y bechgyn yn ddiolchgar i weld wynebau newydd yn ymuno gyda nhw ar y daith. Bu cefnogwyr yn galw i fewn i glwb Rygbi Llambod i'w cefnogi a'u nodd. Diolch i W D Lewis a'i fab am

noddi'r cysau ac am ei cefnogaeth. Diolch i Cegin Haul a Lloyds Dairies am noddi'r bwyd ar gyfer y barbeciw ac i Geraint a Margaret am gael benthyg y barbeciw. Diolch hefyd i unrhywun a fuodd yng nglwm a gwneud yr her yn un i'w chofio i'r bois boed yn eu bwydo ar hyd y daith neu yn eu cefnogi. Erbyn hyn mae'r cyfanswm yn £2000 felly cofiwch bod dal amser i noddi'r bechgyn trwy gysylltu gyda nhw neu ar justgiving sydd ar tudalen facebook (Dawn till dusk charity ride 2019).Dioch i bawb am noddi.

**Rhifyn Medi
yn y Siopau
5 Medi
Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
26 Awst**

Diolch

Mae Eirwyn, Heol-y-Gaer am ddiolch o galon am yr holl haelionni a dderbyniodd ar eu ben-blwydd yn ddiweddar. Gwerthfawrogi'r cyfan.

Hoffai David Morgan a'r teulu Llwynernwn Uchaf, Llanybydder ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ar ôl colli mam a gwaig sef Gwen Morgan ar y 1af o Chwefror eleni. Diolch i chi.

Ysgol Bro Pedr

Cynhaliwyd Chwaraeon Potes yr Urdd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen er gwaethaf y tywydd garw a chafwyd prynhawn o hwyl a sbri. Diolch i staff yr Urdd am ddod atom unwaith eto.

Bu timau o'r ysgol yn cystadlu yn nhwrnament pêl-droed Sêr Dewi a llongyfarchiadau mawr i dîm y bechgyn am ennill sef Kuba, Charlie, Osian, Cai, Callum, Tomos a Hugo.

Diolch i Mr Patterson a Mr John Frith am ddod atom i wneud cyflwyniad diddorol tu hwnt ar glychau'r Eglwys.

Bu disgyblion blwyddyn 4 yn mwynhau gwneud gweithgareddau amrywiol yng nghoediwg Longwood yn ddiweddar a disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn cysylltu â ysgol sy'n dysgu Cymraeg allan yn Ohio drwy gyfrwng "Skype."

Cafodd nifer o ddisgyblion yr Adran Iau foddhad mawr wrth dreulio penwythnos yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog a disgyblion blwyddyn 6 wedi mwynhau wythnos o weithgareddau allanol ym Mhentywyn- diolch i'r staff a fu'n trefnu ac yn goruchwyllo.

Bu dathlu mawr yn yr Uned dan 5 ar ddiwrnod penblwydd Sali Mali yn 50 oed a chafwyd cyffro mawr pan gyrhaeddodd Sali Mali i ymuno yn yr hwyl. Diolch yn fawr am alw heibio Sali Mali.

Cafwyd cyngerdd hyfryd gan athrawon teithiol cerddoriaeth y Sir a'r plant yn mwynhau dysgu am yr offerynnau amrywiol a symud i'r gerddoriaeth.

Cafodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 y cyfle i fynychu Swad Sgwennu creadigol yn ddiweddar a derbyn profiadau gwerthfawr wrth gydweithio i greu barddoniaeth – da iawn chi – Louie, Lowri, Charley, Tia ac Arlo.

Mae nifer o ddisgyblion blynyddoedd 2 a 3 wedi bod yn mynychu clwb garddio ar ôl ysgol a diolch i Mrs Howard am drefnu'r gweithgareddau.

Cynhaliwyd diwrnod i ddathlu ein Cymreictod a diolch o galon i Lleucu Aeron, Mrs Delor James, Mrs Wendy Thomas am ddod atom, i wneud amryw weithgareddau i hybu'r iaith.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 2 hyd 6 gyfle hefyd yn ystod y dydd i wyllo sioe "Barti Ddu" a berfformiwyd gan gwmni Mewn Cymeriad a dysgwyd nifer o ffeithiau diddorol am ei fywyd a chael tipyn o hwyl ar yr un pryd. Diwrnod llwyddiannus o weithgareddau hwyliog felly.



Diolch yn fawr i Mr Frith a Mr Patterson am gyflwyniad arbennig ar ganu clychau.



Diolch i Gbubemi Amas o'r LMCM am gynnal gweithdai ar y "Windrush Generation".



Dathlu Pen-blwydd Sali Mali yn 50 oed yn yr Uned dan 5 oed.



Llongyfarchiadau i dîm Pêl-droed Ysgol Bro Pedr am ennill twrnamaint Sêr Dewi yn ddiweddar.



6 Medi 2019 am 7yh
yn Neuadd Sant Iago, Cwmann

Cyngerdd Mawreddog

gyda Ellen Williams, Caerdydd,
Kees Huysmans, Llanbed,
Plant Ysgol Carreg Hirfaen
a Chôr Meibion Cwmann a'r Cylch.

Llywydd y Noson
Y Bon Twynog Davies B.Sc
Ffrondolau, Pentre-bach.

Tocyn yn £8 gyda'r elw yn mynd tuag at Cymorth Cristnogol a'r Côr.

Cofiwch am
Sioe Llambod - dydd Sadwrn yma 6 Gorffennaf.
Sioe Cwmsychpant - 10 Awst
Sioe Gorsgoch - 17 Awst

C.F.F.I. Dyffryn Cothi

Noson Chwaraeon C.F.F.I Sir Gâr



Ar nos Iau y 6ed o Fehefin, cynhaliwyd Noson Chwaraeon C.F.F.I Sir Gâr. Llongyfarchiadau i'r tîm rownderi iau ar berfformiad campus, i'r tîm pêl-rwyd cymysg ar ddod yn gydradd drydydd ac i'r tîm hoci merched ar ddod yn ail. Dyma lun o'r tîm hoci merched (Top: Anna, Carwen, Sulwen, Mirain, Lynwen, Gwaelod: Gwenllian, Carwen, Heledd). Diolch o galon i George Brothers am noddi ein crysau chwaraeon newydd.

Cinio Blynyddol



Cynhaliwyd Cinio Blynyddol C.F.F.I Dyffryn Cothi ar y 7fed o Fehefin yn Nhafarn y Penybont, Llanfynydd. Llongyfarchiadau i bawb a dderbyniodd dlws ar y noson.

Tancer Cadeirydd 2018/19 - Deian Thomas. Cwpan Coits - Hywel Davies. Cwpan Barnu Stoc - Eirwyn Richards. Tarian Presenoldeb - Aled Thomas. Aelod y Flwyddyn - Eirwyn Richards. Cwpan Siarad Cyhoeddus - Sulwen Richards.

Rygbi Cyffwrdd

Ar nos Wener y 14eg o Fehefin, cynhaliwyd Cystadleuaeth Rygbi Cyffwrdd C.F.F.I Sir Gâr (Merched). Llongyfarchiadau i Mirain Tomos, Carwen George, Anna Davies, Gwenllian Jenkins, Heledd Jenkins a Carwen Richards am ennill y gystadleuaeth newydd hon.

Diwrnod Chwaraeon C.F.F.I Cymru

Llongyfarchiadau, hefyd, i Heledd, Gwenllian a Carwen ar gael eu dewis i gynrychioli'r Sir a chwarae hoci yn Niwrnod Chwaraeon C.F.F.I Cymru ar ddydd Sul y 16eg o Fehefin yn Aberystwyth.

Sioe Frenhinol Cymru

Bydd sawl un o aelodau'r clwb yn cynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol eleni. Pob lwc i Aled Thomas (Cneifio), Manon Johnston (Trin Gwlân), Carwen George (Canu), Eirwyn Richards (Barnu Stoc).

Cneifio Cothi

Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi i'n Cystadleuaeth Trin Gwlân a Chneifio Gwellau yng Nghilgawod, Caio ar y 14eg o Orffennaf, ac i Ornest 'Cneifio Cothi' ar y 19eg o Orffennaf. Croeso cynnes i chi gyd!

Siaradwyr NEWYDD!

COLOFN Y DYSCWYR gan Ann Bowen Morgan

Siop Siarad Llanbedr Pont Steffan

Drwy'r flwyddyn am 2 o'r gloch ar ail ddydd Iau y mis cynhelir Siop Siarad ar gyfer dysgwyr y Gymraeg gyda Chymry cynhenid yn yr Hedyn Mwstard. Diolch i'r Hedyn Mwstard am ddarparu'r cwtsh yn fisol ar ein cyfer ac am y coffi a'r cacennau blasus.

Os ydych yn ddysgwr ac eisiau ymarfer eich Cymraeg, dewch i ymuno gyda ni.

Dyma rhai sylwadau gan y dysgwyr a'r merched am bwysigrwydd y Siop Siarad:

‘Mae’n gyfle da i ymarfer ein Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol’- Jane Pearson .

“Mae’n braf cael gwneud ffrindiau newydd a chyfarfod dysgwyr eraill”- Sara Bee.

“Mae’r merched yn siarad yn bwyllog ac yn rhoi amser i ni ac yn dysgu geiriau newydd i ni” Yaw

“Rydym yn cael llawer o hwyl a gwrando ar Gymraeg.”Mark

“Rwy’n hoffi mynd a chael siarad gyda’r dysgwyr yn hamddenol. Maent yn gofyn am ystyr ambell air a sut i ddweud rhywbeth yn Gymraeg.” Verina

Cinio diwedd y flwyddyn yn Y Gilfach



Cafwyd ein cinio blynyddol yn Y Gilfach ym Mis Mehefin a gwledd arddechog o fwyd bendigedig gyda phawb wedi cyfrannu.

Mwynheuwyd y sgwsio a'r gwledda gan bawb a diolchwyd i Verina,

Mary, Elma, Eryl ac Ann am eu trefnu a'u cyfeillgarwch ar hyd y flwyddyn.



Llun o'r dysgwyr David a James gyda Verina, Mary ac Eryl.

Roedd bwyd amrywiol yn y wledd o gyw iâr Satay gan Yaw o Thailand i Selsig Morgannwg gan David, cyri llysieuol gan Mary, pate mecryll gan Verina a theisen spwng di- glwten fendigedig gan Steven ymysg llun o fwydydd eraill.



Digwyddiad nesaf

Cynhelir taith gerdded ar ddydd Mercher 10fed o Orffennaf i Ystrad Fflur a'r ardal a chinio i ddilyn yn y Llew Du ym Mhontrhydfendigaid. Byddwn yn cyfarfod ar sgwâr Tregaron am 9.30 a chaniateir cŵn! Os am ddod cysylltwch ag Ann Morgan 07791 966122.

Llanbedr Pont Steffan

Capeli Shiloh a Soar

Yn ddiweddar aeth aelodau Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh a Soar ar daith ddiddorol ac amrywiol. Anelwyd i ddechrau am bentref Myddfai pan ymwelwyd â'r ganolfan newydd sydd yn y fan honno. Disgrifiwyd y ffordd yr aed ati i lunio ac ariannu'r ganolfan gan Huw Davies ac eglurwyd sut y bu modd iddynt dderbyn grantiau oddi wrth asiantaethau gwahanol er mwyn hyrwyddo'r gwaith. Yn naturiol roedd hanesion Meddygon Myddfai ar y muriau o gwmpas a'u gwaith gyda phlanhigion y tu hwnt o ddiddorol. Ysgrifennwyd tua 500 o feddyginiaethau ganddynt a mawr oedd eu gwybodaeth a'u gallu. Parheir â'r traddodiad meddygol heddiw a daw doctoriaid ac arall at ei gilydd yn flynyddol i drafod pynciau perthnasol. Yr un dan sylw eleni yw "Gwaed."

Cafwyd cyswllt uniongyrchol â'r byd y soniwyd amdano ym Myddfai wrth i'r criw symud ymlaen i Bantycelyn, cartre William Williams. Pan ystyriwn waith y Pêr Ganiedydd ei gyfraniad emynyddol a ddaw i'r meddwl ond pan yn ifanc roedd ei fryd ar fynd yn ddoctor. Cafodd droedigaeth a'i ddylanwadu gan bregethu Howell Harris a'i arwain tuag at yr eglwys. Mae'r hanes yn wybyddus i ni'r dyddiau yma gan i ni ddathlu tri chan mlynedd geni William Williams dwy flynedd yn ôl ond hyfryd oedd medru sefyll lle safodd ef a theimlo awyrgylch ei gartre trwy law Cecil a Cynthia Williams - Cecil wrth gwrs yn ddisgynnydd iddo. Er i ni glywed am William Williams droeon ar bregeth a darlith yn ddiweddar roedd rhai ffeithiau yn dal i'n synnu. Amcangyfrifwyd iddo deithio 148,000 o filltiroedd ledled Cymru er mwyn cynnal seiadau. Roedd yn ddyn masnach ac yn werthwr te - yn graff a llym yn ei faes yn ôl y sôn. Roedd yn fardd telynegol a chyfansoddodd rhyw 850 o emynau ynghyd â darnau o ryddiaith. Roedd hefyd yn dad i wyth o blant. Rhwng popeth roedd ganddo ddigon i'w wneud! Yn sicr roedd yn un o sêr ei gyfnod.



Wrth adael Pantycelyn y tu ôl i ni roedd yn amlwg ein bod yn mynd i weld rhai o sêr y presennol wrth eu gwaith. Teithiom draw i Lanelli i stiwdio Tinopolis a chyrraedd yno erbyn darlledu Prynhawn Da. Gwelwyd sut y trefnwyd y rhaglen a sut y rhoddwyd yr eitemau at ei gilydd. Cafwyd cyfle i sgwrsio â Sian Tomos, Rhodri Owen a Mari Grug a gweld Huw yn trin ffasiwn. Ymddangosodd rhai ohonom ar y rhaglen hyd yn oed! Da oedd cael gair â'r rhai oedd yn adnabyddus i ni ar y sgrîn a gweld eu bod yn bersonau gwresog a chyfeillgar.



I gloi ein hymweliadau parhawyd â'r thema deledu drwy alw i mewn i'r Egin, cartre newydd S4C yng Nghaerfyrddin. Tywyswyd ni o gwmpas gan yr actores Lisa Marged a ymddangosodd gyda un o'n haelodau ni, sef Gillian Elisa yn y ddrama 35 awr. Ymwelwyd â'r llecynnau gwahanol yn yr adeilad a'r un â'n synnodd fwy oedd y stiwdio lle darlledir y tywydd. Nid oedd un map yn y golwg a'r llen werdd foel yn gefndir. Gwyddem fod proffwydo'r tywydd yn anodd ond roedd hwn yn gwneud y dasg yn anoddach fyth!

Wrth i ni yllio'r hinsawdd yn gwella y tu allan i'r adeilad hyfryd dychwelwyd i'r bws a mynd tuag at derfyn y daith sef Gwesty'r Hollybrook ym Mronwydd. Yno cawsom bryd blasus a chyfle i ymlacio ar ôl diwrnod prysur ond diddorol tu hwnt. Diolchwyd i Twynog Davies am drefnu unwaith yn rhagor a choronwyd ef yn Seren Shiloh a Soar. Ond cyn iddo fynd allan drwy'r drws roedd rhai yn holi - ble ewch chi â ni'r flwyddyn nesa'?!

Cronfa Leol Llanbed ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 Brecwast Stwffio

Ar ddiwedd mis Mai cawsom frefwast stwffio yng Nghaffi Mark Lane a mwynheuwyd brecwast ardderchog gan dros 30 ohonom. Diolch i Elfan a Dorothy a'r staff i gyd am eu gwaith. Rydym yn sicr yn mwynhau ein gwleda yn Llanbed a'r hyn sy'n braf yw cael cefnogaeth amrywiaeth dda o drigolion Llanbed i'n gweithgareddau.

Taith gerdded nodedig



Ar bnawn Sul y 23 ain o Fehefin llwyddwyd i gynnal y daith i Goedwig Longwood ar ôl gorfod ei ohirio ym mis Mai o ganlyniad i storm Hannah! Mwynheuodd y cwmni bach y daith o dan arweiniad Debbie White, un o'n

dysgwyr a bu'r tywydd yn garedig wrthym. Daeth i fwrw glaw 10 munud ar ôl i ni gyrraedd yn ôl. Roedd yn braf iawn cael cwmni Julie Davies a'i phlant Sion ac Elin. Cafwyd dros £900 gan ein noddwyr amrywiol a llongyfarchiadau i Rhys a Sian Bebb Jones ar ennill y wobr am y mwyafrif o noddwyr.

Noddfa

Bu'r flwyddyn aeth heibio yn un llwyddiannus arall yn hanes Ysgol Sul Noddfa. Bu'r plant yn mynychu'n ffyddlon bob nos wener a'r rhieni yn rhoi o'u hamser i gynorthwyo yn eu tro. Bu'r aelodau yn diddanu'r Henoed yng Nghartref Hafandeg, yn cymryd rhan yn y Gymanfa Ganu ym Methel Silian ac mewn oedfaon yr ifanc gan roi o'u gorau bob amser. Roedd gweld brwdfrydedd y plant lleiaf wrth ganu a chwarae offerynnau taro yn yr oedfaon yn codi'r galon ac yn gwneud i bawb wenu a'u cyfraniad yn cyfoethogi yr addoli yn fawr. Bydd seibiant haeddiannol i bawb dros fisoedd yr haf ac fe fydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ym mis Medi. Diolch i'r plant ac i'r rhieni am eu hymroddiad a'u cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at gyd - weithio hapus a llewyrchus eto yn y dyfodol.

Mae'r plant a'r bobl ifanc wedi cael llwyddiant mawr mewn gwahanol feysydd yn ystod y misoedd diwethaf yn cynnwys eisteddfodau mawr a bach a chwaraeon amrywiol fel athletau a rasmus beiciau modur a hynny ar safon Genedlaethol. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol. Yr ydym yn ymhyfydu yn eu llwyddiant.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Llanbedr Pont Steffan

Capel Brondeifi

Ar Sul Ebrill 28ain ar BBC Radio Cymru bu'r Parch Alun Wyn Dafis yn arwain Oedfa'r Bore, gyda chymorth nifer o Frondeifi. Cafwyd gwasanaeth hwylus tu hwnt.

Yn ystod y prynhawn a'r nos ar yr 28ain cynhaliwyd Cymanfa Ganu'r Undodiaid ym Mrondeifi. Yn arwain, gydag arddeliad, roedd Enfys Hatcher-Davies. Diwrnod i'w gofio.

Ar Sul Mai 12fed cafwyd gwasanaeth dan ofal y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Yn ystod yr oedfa cyflwynwyd cloc i'r capel, gan Mr Aneurin Jones, Hathren, a'r teulu, er cof am ei ddiweddar wraig, Mrs Sallie Jones. Gwnaeth Sallie gyfraniad arbennig i'r capel a'r ysgol sul ym Mrondeifi, a hynny dros gyfnod o ddegawdau. Bydd y cloc yn cael lle balch a phriodol yn y capel.

Ar y dydd Mercher canlynol - y 15fed - cynhaliwyd Brecwast Mawr Brondeifi. Daeth tyrfa dda ynghyd i gael brecwast yn y Ffestri, a oedd yn cael ei weini rhwng 7.30 a 11.30 y bore. Gadawodd pawb â'u boliau yn llawn a gwên ar eu hwynebau. Llwyddwyd i gasglu £1,317 i elusen Cymorth Cristnogol. Diolch o galon i bawb fu ynghlwm â'r digwyddiad.

Ar Sul Mai 19eg, tro Ysgrifennydd yr enwad, Mrs Melda Grantham, oedd hi i gamu i'r pulpud. Yna ar y 26ain y Parch Alun Wyn Dafis oedd yn gwasanaethu am y Sul olaf cyn iddo fynd i ffwrdd am dri mis. Mae Alun Wyn a'i briod, Karen, yn treulio cyfnod yn teithio drwy rannau o Ewrop - cyfuniad o wyliau a chyfle i Karen i adfer ei hiechyd. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonyn nhw, ac edrychwn ymlaen at eu gweld yn dychwelyd ar ddiwedd yr haf.

Ar Sul Mehefin 9fed, roedd y gwasanaeth yng ngofal Mrs Elsie Jones, a'i chwaer, Mrs Gwenda Davies, yn darllen. Cafwyd anerchiad trawiadol ar y synhwyrâu fydd yn aros yn y cof yn hir.

Y Sul canlynol - Mehefin 16eg - Gareth Morgans gydiodd yn yr awennau mewn gwasanaeth yn y festri, a chafwyd anerchiad pwrpasol ganddo ar Sul y Tadau. Roedd Tanya, ei wraig, yn cynorthwyo hefyd - yn cyfeilio ar y piano ac yn offrymu gweddi. Roedd eu merch, Megan Haf, yno'n ogystal i gwblhau'r drindod deuluol, a chafwyd darlleniad ganddi hi. Alan Morgans fu'n casglu.

Ar ddydd Sul Mehefin 23ain, Gerald Morgan o Dregaron oedd yn gwasanaethu yn yr oedfa yn y prynhawn. Ar Fehefin 30ain, byddwn yn croesawu ein cyn-weinidog, y Parch Goronwy Evans, yn ôl i bulpud Brondeifi.

Cymdeithas Hanes

Bu'r aelodau ar eu taith flynyddol

ar yr 17eg o fis Mehefin. Ymwelwyd ag Aberglasne yn y bore, lle tywyswyd hwy gan wirfoddolwr o gwmpas y gerddi, gan adrodd hanes diddorol y tŷ canoloesol, a'r gerddi. Arferwyd y gamp o ddefnyddio bwa a saeth ar y lawnt ogleddol, ac yn y fan honno hefyd y byddent yn chwarae 'croquet'. Gwelwyd y twnnel o goed yw, a chael rhagor o hanes y porthdy a gerddi'r clwysty. Cafwyd cyfle i gael pryd o fwyd yn y babell wrth ymyl y pwll.

Symudwyd ymlaen yn y prynhawn i Ddinefwr, a braf oedd gweld y gwartheg gwyn a'r ceirw gerllaw'r tŷ. Codwyd y tŷ newydd ym 1660, ac erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg rhoddwyd arwynebedd o gerrig yn y dull Gothig ar yr adeilad, a chodi pedwar tŵr ar y corneli. Codwyd ceginau yn rhan hynaf y tŷ, ond erbyn hyn, yma mae'r llyfrgell. Roedd yna dwneli yn rhan isaf y tŷ, - llanwyd hwy gan rwbél ar un adeg, ond maent wedi eu clirio unwaith eto; yma roedd y morynion a'r gweision yn gweithio a bwyta, ac yn ystod yr ail Ryfel Byd, defnyddiwyd y rhan yma gan filwyr clwyfedig wedi dychwelyd o faes y gâd. Bu rhai o'r aelodau mwyaf ystywyth i fyny yn yr atig, o lle medrent gael golygfa o'r hen gastell.

Mwynhawyd y diwrnod yn fawr gan bawb; diolch i Barbara ac Euros am drefnu'r daith ar ei hyd. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas Hanes ar yr 17eg o fis Medi.

Merched y Wawr

Yng nghanol tywydd oer a gwlyb ein haf eleni mor belled, cawsom ddiwrnod sych i'n taith ddirgel. Aethom ar y bws o'r Rwceri gyda phawb yn teimlo'n reit gyffrous ac yn dyfalu tybed ble'r oeddem yn mynd! Ar ôl llawer o syniadau ymysg ein gilydd ar y ffordd, dyma ni yn cyrraedd Aberystwyth ac ymlaen drwy'r dre yr aethom nes dod at steshon trên bach 'Constitiushon Hill! Wel, cafodd pawb brofiad eithaf unigryw wrth fynd i fyny ar y trên a chael gweld yr olygfa dros y dref a bae Ceredigion yn ymestyn oddi tanom. Cyrhaeddodd yr uchelfan gyda phawb yn casglu i ryfeddu ac edrych. Cerddodd rai i fyny i gopa'r bryn, eraill yn barod i fwynhau paned a chacen a chlonc. Ar ôl i bawb gael cyfle i ymlacio, aeth y rhan fwyaf yn ôl i'r trên ond cymerodd rhai y cyfle i gerdded i lawr. Cyrhaeddodd 'y bar', gyda phawb yn casglu i gael tro ar y prom cyn cyrraedd gwesty'r Marine i gael swper. Cawsom gyfle i ymlacio gyda glased o win neu rywbeth o'n dewis cyn mynd i fwyta, lle cawsom groeso cynnes gan Nerys a phryd o fwyd arbennig o flasus.

I gloi y noson diolchodd Elin, ein llywydd i Nerys a'i staff am y

cyfan, i aelodau'r pwyllgor am eu cydweithrediad dros y flwyddyn ac yn enwedig i Mary, ei hysgrifennydd ac Elma ei thrysorydd, gyda phawb yn cytuno ein bod wedi cael blwyddyn o weithgareddau diddorol dros ben ac yn gorffen gyda'n taith ddirgel. Diwrnod o ymlacio pur gyda'r diolch i Verina am y trefniadau i gyd. Yna dymunwyd yn dda i Gillian a'i thim am y flwyddyn i ddod.

Aelwyd ac Adran yr Urdd

Bu Eisteddfod yr Urdd unwaith eto yn un i'w chofio i aelodau Aelwyd yr Urdd. Cipiodd y grŵp llefaru dan 15 y wobr gyntaf a hynny am y bedwaredd flwyddyn yn olynol dan hyfforddiant Elin Williams sydd yn gamp rhyfeddol. Y gerdd oedd 'Dwy Ochr y Stryd' gan Grahame Davies a chriw prosiect Shelter, Ysgol Dyffryn Teifi. Diddorol yw nodi rhan o sylwadau'r beirniaid Siân Teifi a Linda'r Hafod, "Dyma barti oedd yn amlwg wedi deall her y gerdd ac a oedd yn medru cyfleu hyn mewn ffordd hyderus a medrus. Cafwyd llefaru ystyriol a naturiol iawn yn y rhagbrawf ac ar y llwyfan. Roedd asiad y lleisiau yn dda iawn ac wyneb bob un aelod yn dweud y stori mewn ffordd mor ddidwyl. Roedd ôl disgyblaeth arbennig yma a'r cyfanwaith wedi ein plesio yn fawr iawn".

Cafwyd perfformiad da iawn hefyd gan barti unsain yr Adran dan arweiniad Rhiannon a Lois yn cyfeilio. Yn ôl y beirniaid Mari

Pritchard ac Elin Llywelyn cafwyd datganiad egniol a brwdfrydig yn llawn manylion cerddorol a chyfyrrddiadau cofiadwy. Rhoddwyd sylw manwl iawn i'r geiriau, i'r lliwio a'r ddeinameg. A'r sylw olaf "Perfformiad graenus tu hwnt oedd yn agos iawn at gyrraedd y llwyfan heddi".

Mae aelodau'r Aelwyd a'r Adran yn ddyledus iawn i Elin, Rhiannon a Lois am roi o'u hamser ac am eu hymroddiad a'u hamynedd!! Mawr yw eu diolch i bob un ohonynt.

Diolch o galon hefyd i Llinos am ei chyfraniad amhrisiadwy yn trefnu'r ymarferion ac i Janet am ei chymorth hithau yn ôl yr angen. Bydd cyfarfodydd yr Aelwyd a'r Adran yn ail ddechrau ym mis Medi. Mwynhewch y gwyliau.

Braf oedd clywed llais Rhiannon ar Radio Cymru eleni eto yn dod â'r cystadlu yn fyw i ni yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau iddi ar ei chyfraniad clodwiw. Mae ei gwybodaeth eang o'r darnau gosod ynghyd â manylion amrywiol am ambell i feirniad neu gystadleuydd yn hynod ddiddorol ac yn dangos ôl paratoi manwl. Edrychwn ymlaen i'w chlywed eto ar Radio Cymru yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elin sydd wedi ei gwahodd i feirniadu'r adran lefaru yn Y Genedlaethol eleni - anrhydedd haeddiannol iawn.



Tim Lleol o Sefydliad Elusen Romania sydd wedi bod yn brysur yn llwytho treilar mawr a dynnir gan lori Richard Burgess (canol y llun). Dyma fydd ei ganfed trip ac o bosib ei olaf. Bydd ei wraig Linda yn mynd gydag ef ar y trip pedwar diwrnod i Dorohoi yng ngogledd Romania.



Ffair Haf Ffrindiau Hafandeg ar ddydd Sadwrn 29ain Mehefin gyda stondiau, cerddoriaeth, adloniant, te a choffi a agorwyd gan y Cyng Selwyn Walters, dirprwy Faer.



Enw: **Ceri Jenkins**

Oed: 23

Pentref: Llambled

Gwaith: Swyddog Cymunedau

Gwledig gyda Cynnal y Cardi

Partner: Llŷr Davies

Teulu: Dad, Mam, Megan a Sam

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Chwarae yn cefen y mart yn Llanybydder gyda'm cefndryd – mae tipyn ohonom ni a oedd bron pob dydd Sadwrn yn cael ei dreulio lawr yn tŷ mamgu Llanybydder. Ar ôl mynd draw i ddewis cinio o'r bakery, fydden ni'n chwarae gemau fel 'Mob 123' a 'Murder in the dark'. Mae mynd lawr i weld mamgu ar ddydd Sadwrn yn draddodiad nawr gyda'm cefndryd yn dod a'r genhadlaeth nesaf i chware gyda'i gilydd a dwi'n falch iawn o'r amser dreulion ni gyda'n gilydd wrth dyfu lan.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Mae sawl un! Ond pan o'n ni'n ifanc roedd Megan a finne'n chwarae ambiti tra bod mam yn helpu rhoi stondinau ffair fwyd Llambled lan. Wrth i ni chware 'dizzy dizzy dinasours' (troi a throi nes bo ni teimlo'n dizzy) gwnes i fynd i roi cwtsh i Mam. Wrth i fi edrych lan – dim mam oedd na ond rhyw ddynes arall!!

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Cyflwynydd Radio ar Radio Ceredigion a enw'r rhaglen bydde Ceri Ceredigion.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?

Pan o'n ni'n y Brifysgol yn fy mlwyddyn gyntaf yng Nghaer-Wynt gwnaeth Llyr ddweud bod e wedi trefnu parcel i ddod atai ar ddiwrnod San Ffolant a phan es i draw i gasglu'r parcel – fyna odd e'n sefyll gyda rhosyn yn ei law!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Er bo' fi'n mwynhau teithio, does dim unman yn brafiach na adref.

Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?

Chocolate Hobnob – Siocled i ddangos bo fi'n joio bach o luxury ac yn llyfn ar yr wyneb ond fi'n crymblo mewn dŵr poeth!

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?

Rhaid dweud Panda – bywyd grêt gyda nhw a'i hunig nod mewn bywyd yw i fwyta a chysgu.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Cael cwrdd â phobl a chymunedau Ceredigion.



Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?

Gorfod eistedd mewn swyddfa mewn lleoliad perffaith tra'n gwylio pobol arall yn mwynhau diwrnodau braf yn Aberaeron.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Ni'n lwcus iawn, ni ddim rhy bell o'r môr, byd natur o'n hamgylch a ddim rhy bell o siopau.

Pa mor wyrdd wyt ti?

Weddol, dwi'n gwneud siŵr bod botel dŵr 'reusable' 'da fi ym mhob man a wastad yn roi pethau yn y bin ailgylchu.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Cymraeg

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Bwco sawl trip o amgylch y byd.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Dw i wastad yn mynd yn grac, rhan fwyaf o'r amser ar Sam (ond fel na sydd fod gyda perthynas brawd a chwaer). Dw i eithaf byr fy amynedd!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Graddio gyda gradd dosbarth cyntaf

Ac yn bersonol?

Mynd i Tseina ar ben fy hun pan oeddwn yn 18, profiad anhygoel

ond hefyd dysgais lot amdano fy hunan a oedd rhaid i fi magu hyder.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?

Difaru peidio cymryd mwy o sylw mewn dysgu chwith a dde a sut i ddarllen map! Gallen i wedi gwneud tro yn gwrando ar reina.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?

Yfed dau peint o ddŵr jyst ar ôl codi a yfed dŵr yn gyson trwy'r dydd.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Cael criw da o ffrindiau sy'n hapus i fi i lusgo nhw i wahanol ddosbarthiadau ffitrwydd, mynd i'r ystafell ffitrwydd, mynd i redeg, bod yn rhan o dîm hoci a thîm tynnu'r gelyn.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Pan gafodd Sam (fy mrawd) ei eni, 'on ni'n 7 oed ar y pryd ac yn cofio'n iawn, dyw bywyd heb fod yr un peth ers 'ny!!

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Kia Rio Llwyd

Beth yw dy hoff air?

'Cyntachlyd' - dwi jyst yn meddwl bod e'n swno yn gywir fel ti'n teimlo pan wyt ti'n gyntachlyd!

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?

Os bydd e'n fater o oroesi ar yr ynys, byddem ni'n dewis dad, does

dim lot yn ofni fe ac os bydd e'n fater o ymladd gydag arth, adeiladu cysgod neu gynnw tân - dad byddai'r boi gore!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Pysgod a sglodion – can't go wrong.

Beth yw dy ddiod arferol?

Tê neu gin a tonic.

Beth yw cynnwys dy oergell di?

Llwyth o hufen iâ! Pan o'n yn blentyn yn dod nôl o ysgol i dy mamgu Beti – odd mamgu a finne'n cael bowlen o hufen ia vanilla bob dydd beth bynnag y tywydd!

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Lot o 'Crime thrillers'! Dwli darllen llyfr sy ddim gyda stori a diwedd glo amlwg.

Beth yw dy hoff arogl?

Petrol neu homemade gliw Tynnu Gelyn John Green!

Hoff gân ar dy ipod?

Where is the Love gan Black Eyed Peas – dw i'n gwybod y geiriau i gyd!

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

Siani Sionc! (Sian Elin Williams)

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Lluniau

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Trwsio dillad, gwau neu gwinio – byse fe'n rhwbeth rili handi i allu gwneud!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?

Teulu

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?

Megan, gyda dim ond 18 mis rhyngom ni, dw i'n aml yn dilyn yn ôl ei throed hi. A dw i wastad yn cael fy nylanwadu gyda phenderfyniadau Megan - er, efallai bod ei chynghor am fod rhaid talu arian da bryd yn prynu esgidiau ddim yn ddylanwad da arnai!

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?

Mam. Ni wedi cael ein magu i fod yn frwdfrydig iawn, magu hunain hyder a hi sydd wedi dysgu ni i gymryd bob cyfle.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf: **Ryan Doughty, Cwmann**

Ysgol Y Dderi



Bu wyth o ddisgyblion Blwyddyn 6 allan yn Agliana yn Yr Eidal i fynychu cyfarfod Erasmus+ yn ddiweddar. Bu'r disgyblion yn dysgu sgiliau busnes ac yn ymweld â busnesau lleol megis planhigfa Florence, y mwyaf yn Ewrop. Bu'r disgyblion yn cael gwers gwneud pítsa gyda dau gogydd enwog o'r Eidal a bu Bleddyn ar y teledu yn siarad am y profiad! Daeth plant o Slofenia, Norwy a Latfia i ymuno â ni a chafwyd nifer o brofiadau cymdeithasol hyfryd. Uchafbwynt y cyfarfod oedd cynnal stondin a oedd yn gwerthu 3 math o gynnyrch Cymreig. Yn dilyn misoedd o baratoi a chynllunio penderfynom ar werthu Cannwyll Tân y Ddraig, bag siopa gyda dyluniad o bethau Cymreig arno a chynnyrch pren sef llyfrnod, maged a "key-rings". Dyluniwyd y cynnyrch pren gyda chymorth Mr Griffiths o'r adran dechnoleg yn Ysgol Bro Pedr i gwmpasu llwyau caru a'r ddraig goch. Gwerthwyd y cyfan a rhoddwyd yr elw hael i elusen CRUSE ac Ambiwlans Awyr Cymru. Cafwyd profiadau cyfoethog iawn wrth deithio i wlad dramor a mawr yw ein diolch i Mrs Ann a Miss Sioned am fynd â'r plant.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar ddydd Iau, 6ed o Fehefin. Daeth cynulleidfadau dda o gefnogwyr i wylïo'r holl rasys a phob un plentyn yn rhoi o'u gorau glas. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am gynnal y stondin te ac am baratoi kebabs ffrwythau, diod a chacen i bob disgybl. Y pencampwyr oedd Teifi, gyda Dulas yn ail ac Aeron yn drydydd. Da iawn chi.



Fel rhan o'u thema aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 i Gastell Henllys i brofi beth oedd hi fel i fod yn Gelt go iawn. Adeiladu tŷ crwn, pobi bara a pheintio wynebâu oedd rhai o'r gweithgareddau a chafwyd diwrnod i'r brenin.

Diolch i'r Urdd am drefnu Chwaraeon Potes i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Cafwyd bore o hwyl yn meithrin sgiliau corfforol.

Cynhaliwyd parti penblwydd i Sali Mali yn yr ysgol gyda chacen enfawr a hithau'n hanner cant. Gwisgodd y plant ddillad oren i'r ysgol a chafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys cân Sali Mali – Casia Williams, Bardd Plant Cymru oedd wedi ysgrifennu'r geiriau yn arbennig. Diolch i Jac y Jwc am alw mewn i weld pawb hefyd.

Diolch yn fawr iawn i un o rieni amryddawn Ysgol Y Dderi sef Rhiannon Tansley o gwmni Swshi Cymru am gynnal noson ddifyr iawn ar sut i baratoi swshi gan godi arian tuag at CRHa yr ysgol. Cafwyd gweithdy diddorol a blasus iawn!

Bu 15 o ddisgyblion blwyddyn 6 yn ymweld â Ysgol Dalby yn Denmarc yn ystod mis Mehefin. Bu'r profiad o hedfan mewn awyren a phrofi gwlad, iaith a diwylliant gwahanol yn wych. Roedd ymweld â chastell Koldinghus a Legoland yn uchafbwyntiau ond heb os perfformio ar lwyfan yn yr awyr agored yng Ngŵyl Gerddoriaeth Dalby oedd yr uchafbwynt wrth iddynt berfformio Sebona Fi gan Yws Gwynedd. Diolch i Miss Rhian, Miss Alicia a Miss Gwen am roi'r cyfle bythgofiadwy yma i'n plant.

Trist iawn fydd ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6 ar ddiwedd y tymor,

maent wedi bod yn ddosbarth gwyhych. Colled ni fydd ennill eu hysgolion uwchradd.

Roedd disgyblion blwyddyn 5 wedi mwynhau pob eiliad o'u taith i Ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Ymweliad â'r Royal Mint, y Senedd, Bowlio 10, taith cwch, Stadiwm y Principality a phryd o fwyd yn Cosmo oedd yr uchafbwyntiau. Bendigedig.



Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion blwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth Y Criw Mentrus yn y Rownd Rhanbarthol Terfynol yn Fferm Folly. Cafwyd diwrnod prysur yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gosod stondin, cymryd rhan mewn dau gyfweiliad a seremoni wobrwyo. Llwyddodd Betrys i ennill gwobr arbennig sef yr "unigolyn eithriadol" am ei chyfweiliad, a llwyddodd y tîm i ddod i'r brig am eu creadigrwydd. Ymlaen i'r ffeinal nawr yng Nghaerdydd.

Maesyffynnon

Yn Ysgol Y Dderi cynhelir Cyngerdd Blynnyddol Maesyffynnon eleni ar nos Sul, Gorffennaf 7fed am 7.30y.h. Y Côr gwadd yw Côr Merched Soar o ardal Tregaron a'r gadeiryddes yw Rowena Williams. Pris Mynediad £5 a'r elw i Gapel Maesyffynnon.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i bawb a fu mewn ysbytai yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu yr aelodau ar Fehefin 19eg yn Ysgol Y Dderi dan lywyddiaeth y llywydd Deborah Jones. Ail etholwyd y swyddogion – llywydd Deborah Jones, is-lywydd Gwyneth Jones, trysorydd Mary Jones a Mair Spate fel ysgrifenyddes. Trefwnyd rhaglen y tymor nesaf gan ddechrau gyda ymweliad â LAS ym mis Medi.

Rhoddwyd y Raffl gan Jen Cairns ac fe gafodd bawb wobwr. Rhoddwyd y lluniaeth gan Eleanor Evans a Rita Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 18fed.

Cwrtnewydd

Priodas Aur

Yn ystod y mis dathlodd Emlyn a Pamala Davies, 4 Heol y Bryn eu Priodas Aur. Gobeithio y gwnaethoch fwynhau'r dathlu a iechyd da am lawer i flwyddyn eto.

Pen-blwyddi arbennig

Bu dau ddathliad yn Fronddu pan ddathlodd Carys Griffiths-Jones ben-blwydd arbennig a'i thad, Peter yn ystod y mis.

Cyn diwedd y mis dathlodd Hefin Jenkins, Cathal ben blwydd arbennig. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathliadau.

Swydd Barhaol

Llongyfarchiadau i Kevin Jones, 2 Fronddu ar gael swydd athro CA2 yn Ysgol Bro Pedr, Llambod.

Pentrebach

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Rhian Lloyd [gynt Pant-têg] ar gael ei phenodi yn Bennaeth Ysgol T. Llew Jones. Pob dymuniad da i ti Rhian i'r dyfodol.

Priodas Dda

I Gyfarch

Paul Humphreys ac Eleri Twynog

ar achlysur eu priodas yn Eglwys y Tabernacl, Aberteifi
a'r neithior yng nghastell Aberteifi.
8fed o Fehefin 2019

Yma swyn emosiynau – yn gariad
trwy gur eu calonnau
heulwen haf i lawenahu
yno'i dylwyth Frondolau.

Ar ddydd llawenydd y llys – i fywyd
dan fwa yr enfys;
deil yn uniad hudolus –
nodder hwy trwy'r Argwydd Rhys.

Ac awydd y ddau'n gywaith, - naws a oedd
yn sail adeiladwaith;
a'i hybu'n llawn o obaith –
hyder dau wrth rodio'r daith.

Yntau, ŵr hoffus 'Ponty' – a'r Gymraeg
Mwy yw'r iaith, nid rygbi;
A'th hoffter o Eleri –
yn siwr iawn, yswiria hi.

Jon Meirion

Gŵyl Bêl-droed Llambed

Ar dydd Sadwrn Mehefin 15fed ar gaeau'r Brifysgol eleni cynhaliwyd ail ŵyl Bêl Droed Llambed.

Ar ôl misoedd o baratoi, daeth y diwrnod mawr. Roedd y tywydd wedi bod yn ein herbyn drwy'r wythnos a braf felly oedd gweld yr haul yn gwenu ar y diwrnod.

Bu llawer o ddiddordeb gan dîmau lleol a rhai ddim mor lleol! Roedd 85 o dimoedd yn cymryd rhan eleni yn ystod y dydd.

Yn cystadlu ar y dydd roedd tîmau Dan 6, Dan 8, Dan 10, Dan 12, Dan 14, Dan 16, Merched Dan 12 a Merched Dan 14.

Ar ôl cystadlu brwd roedd rhaid cael enillwyr. Canlyniadau'r dydd oedd:

Dan 8:- Enillwyr – Llambed Yn ail:- Aberaeron. Dan 10:- Enillwyr – Llambed Yn ail:- Bow Street. Dan 12:- Enillwyr – Llanilar Yn ail – Llambed. Dan 14:- Enillwyr – Ffostrasol Yn ail :- Aberaeron. Dan 16:- Enillwyr – Llambed Yn ail:- Tregaron. Merched Dan 12:- Enillwyr – Penrhyncoch Yn ail :- Llambed. Merched Dan 14:- Enillwyr – Aberteifi Yn ail :- Ffostrasol

Braf oedd gweld Hari Jones o Dîm dan 10 Llambed yn ennill chwaraewr y twrnamaint o Dan 10 a'i frawd Jac Jones yn ennill chwaraewr y twrnamaint o Dan 8. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr, ond mwy na hynny, gobeithio cafodd y plant i gyd fwynhad drwy chwarae pêl droed a chystadlu.

Ar ran Clwb Llambed, diolchwn i'r plant, rhieni a'r cefnogwyr am eu cefnogaeth drwy'r dydd, ond mae'r diolch mwyaf i'r gwirfoddolwyr a fu'n paratoi am yr wythnosau yn arwain i fyny at y diwrnod. Diolch i'r busnesau lleol am eu hamser a'u haelioni i wneud y diwrnod yn un llwyddianus a hwylus i bawb. Edrychwn ymlaen i groesawu pawb yn ôl i dwrnamaint Llambed yn 2020.



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Cafwyd newid i'r drefn arferol ym mis Mai ac ni chyfarfu'r aelodau ar nos Lun yn y pentref. Yn hytrach, gwisgon ni i fyny mewn steil, hetiau a phob dim, er mwyn mynd i'r Parti Gardd a oedd wedi'i drefnu gan y Sir yng Ngwesty Tyglyn, nos Fawrth, y 7fed o Fai. Mwynhawyd noson ddifyr yn chwilota am fargeinion ymhlith y stondinau, yn chwarae croce ar y lawnt, yn cystadlu am wobwr yr het orau, yn gwrando ar berfformiadau cerddorol a llenyddol a chael pryd o fwyd blasus. Ni chynhaliwyd cyfarfod ffurfiol y noson honno, ond beirniadwyd y gystadleuaeth fisol, sef pwysau papur a'r enillydd oedd Shan Lewis.

Brynhawn Llun, y 3ydd o Fehefin, bu'r aelodau ar galifant unwaith eto, nid nepell o'r pentref y tro hwn. Aethon i weld yr alpacas sy'n cael eu cadw gan Emma Bird a'i gŵr ym mhentref Blaencwrt a chafwyd croeso cynnes ganddynt. Buom yn cerdded yn y caeau ynghanol yr anifeiliaid annwyl, ond chwilfrydig, a oedd newydd gael eu cneifio a buom yn ddigon ffodus i weld alpaca bach rai diwrnodau oed, a oedd wedi cael ei eni'n gynnar. Dysgom am y gofal sydd ei angen ar yr anifeiliaid a'r defnydd a wneir o'u gwlan. Yna

bu Emma yn nyddu'r gwlan ac yn dangos y deunyddiau y mae'n creu ohono ac yn eu gwerthu. Cyn ymadael mwynhawyd cwpanaid o de a chacen a chynhaliwyd cyfarfod byr i drafod y materion busnes angenrheidiol. Cynhaliwyd y gystadleuaeth fisol hefyd ac enillydd y bag llaw mwyaf deniadol oedd Alice Davies, gyda Gwen Davies yn ail a Shan Lewis yn drydydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys gyda Linda, Richard a'r merched, Fronheulog ar golli brawd ac ewythr annwyl ym mherson Lee Janes o Demple Bar a fu farw yn sydyn yn ystod y mis. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr a dwysaf.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Meinir Ebbsworth, Brynamlwg yn teimlo'n well erbyn hyn yn dilyn ei llawdrinaeth diweddar.

Wyr newydd

Llongyfarchiadau i Catrin a Llew Thomas, Castell Du ar ddyfodiad wyr bach newydd, Ceio Griffith, mab bach i Gwawr a'i phriod Owain yn Synod Inn.

Te prynhawn er budd Cancer



Yn ystod mis Mehefin, agorodd Alan ac Ann Jones, Anneddwen, Llanwnnen ddrws eu cartref i gynnal dau 'De Prynhawn'. Daeth 100 o gyfeillion a theulu ynghyd i godi arian at Ymchwil Cancer. Cafwyd bwyd / coginio cartref ar eu orau, a phawb wedi mwynhau mas draw, ac fe dynnwyd raffl fawr gyda gwobrau lu yn rhoddedig gan nifer o fusnesau'r ardal a ffrindiau.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am y croeso a gafwyd ar aelwyd Anneddwen.

Ar ddiwedd yr ail de prynhawn, fe drosglwyddodd Alan ac Ann y swm anhygoel o £4,200.00 i'r Cyng Ieuan Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cancer Llambed a Llanybydder - £1400 yr un i Gancr y Fron, Gancr yr Ymennydd a Chancr y Coluddyn.

Diolch

Dymuna Alan ac Ann Jones, Anneddwen ddiolch i bawb a gyfranodd at lwyddiant ysgubol y ddau de prynhawn a gynhaliwyd ar eu haelwyd yn ystod y mis.

Diolch arbennig i'r gwirfoddolwyr canlynol a fu wrthi yn brysur sef Rhian, Mandy, Eirwyn, Dylan ac Elaine, Gareth, Mary a Nia i lwyddiant y ddeuddydd arbennig gyda'r elw yn mynd yn gyfangwbl i Ymchwil Cancer.

Sioe Geir a Beics

Ar ddydd Sul, 23 Mehefin, gwibiodd ceir a beics o'r gorffennol a'r presennol i Drefach, gyda seren rygbi Cymru, Scott Williams a'i deulu yn ymuno yn y diwrnod.

Daeth tyrfa dda o geir a beics ynghyd i Ysgol Gynradd Dyffryn Cledlyn, Drefach, ar ddiwrnod sych a chynnes. Cafodd yr ymwelwyr wledd i'r llygaidd tra'n codi arian at ddau achos teiwlwg.

Ar ôl beirniadu'r ceir a'r beics, cyflwynodd Scott Williams wobrau i'r enillwyr mewn pedwar categori sef addasiad gorau, beic gorau, car cyn y 70au a char wedi'r 70au. Rhoddodd gwmni Scott Williams Motorsport wobwr arbennig i ocsiwn, sef taith yn un o'i geir rasio gan godi swm sylweddol am y profiad bythgofiadwy. Roedd 22 o fusnesau ac unigolion wedi cyfrannu gwobrau hael tuag at y Raffi fawr.

Wrth gerdded o amgylch y ceir a'r beics, roedd cyfle i fwynhau bwyd, diod ac hefyd hufen ia gan ddarparwyr lleol.

Gwledd arall oedd i'r clustiau pan gychwynodd y ceir ar daith 60 milltir.



Gyrrwyd ar hyd lonydd bach y wlad, gan gael saib am goffi hanner ffordd yn Llanrhystud. Tybed os welsoch chi'r ceir o amgylch y sir?

Llongyfarchiadau i'r pwyllgor gweithgar am drefnu digwyddiad newydd gan ddod a'r gymuned at ei gilydd mewn achlysur cofiadwy. Diolch i berchnogion y ceir a'r beics a wnaeth ymuno yn y diwrnod a'r ymwelwyr a ddaeth i fwynhau. Bydd yr elw yn mynd tuag

at Gronfa Leol Eisteddfod Ceredigion 2020 a Neuadd y Pentref Drefach.



Cyngorau Cymuned

CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 13 Mai 2019 am 8.00yh. Cyflwynwyd mantolen am y flwyddyn Ebrill 2018 – Mawrth 2019, ac arwyddwyd y ffurflenni priodol sef Rhelou Sefylog a Chôd Ymddygiad gan y Cadeirydd.

Cynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30yh. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod gan estyn llongyfarchiadau i Dewi Davies ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed ddechrau'r mis. Llonyfarchwyd CFFI Llanllwni ar ennill y rali yng Nghaerfyrddin dros y penwythnos.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Yr oedd Cyngor Sir Gâr wedi archwilio'r adnoddau chwarae.

Penderfynwyd gan yr aelodau y byddai'r Clerc yn llogi toiled a fyddai'n cynnwys cyfleusterau newid plant o ddydd Sadwrn 06/07/2019 tan nos Sul 07/07/2019 yn ystod y diwrnod hwyl a fyddai'n cael ei gynnal ar y cae ddydd Sul 07/07/2019.

Roedd angen ffensio o amgylch y cae chwarae ac yr oedd Eric Davies a Dewi Davies yn mynd i edrych faint o ddefnyddiau byddai eu hangen yn ystod y dyddiau nesaf.

Penderfynwyd cefnogi - Gŵyl Cerdd Dant Llanelli a'r Cylch 2019; Therapi Ocsigen Aberteifi; Ysgol Gynradd Llanllwni; Urdd Sir Caerfyrddin 2021.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 8 Gorffennaf 2019 am 8.00yh.

CYNGOR BRO LLANYBYDDER

Rydym ar fin derbyn y Les i gael cymryd drosodd y cae chwarae yn Rhydcymerau.

Mae Mrs Helen Draycott o Lanybydder wedi cael ei dewis gan ein Cyngor i fod yn Gynghorwraig yn Llanybydder, ac mi groesawyd hi gan ein Cadeirydd.

Bydd hyfforddiant delio â moduron sydd yn gyrru'n rhy gyflym ar ein ffyrdd yn digwydd ar yr 8fed Gorffennaf 2019. Mae'r Cyngor wedi gofyn am arwydd arall i rybuddio moduron i beidio gyrru dros 40 milltir yr awr ar yr heol B4337.

CLONC

CLWB CLONC

Os na wnaethoch gyflunediad archeb Banc y llynedd dyna gyfle i chi wneud eitem. Bydd cael archeb Banc yn ated llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â sicr neu arian parod mae croeso i chi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn i'w mwynu ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST: RHIF FFÔN:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i Clonc gyhoeddi'ch enw ac enw'ch pentref petech yn emill gwobr.

ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [enw banc chi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code:

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay ENat West, Llanbedd 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2019 1st July 2019

Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af
Thereafter annually on 1st July

nes y dderbyniwch rybudd pellach gan yfyllu dros y llythyr / until you receive further notice from us in writing

Enw'r cyfrif i'w dderbynu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no. Llofnod / Signature:

Clwb Pêl-droed Llambed



Llongyfarchiadau mawr i dimoedd pêl-droed



Braf oedd gweld Hari Jones o dîm dan 10 Llambed yn ennill chwaraewr y twrnament o dan 10 a'i frawd Jac Jones yn ennill chwaraewr y twrnament o dan 8.
Da iawn chi fechgyn!



Llongyfarchiadau i dîm Pêl-droed dan 10 Llambed am ennill twrnament Llambed.

Cymanfa Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020



Cŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Cenedlaethol Ceredigion 2020



Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Cenedlaethol Ceredigion 2020





Prif ddigwyddiad mis Mehefin i glwb Sarn Helen, ac i 63 o glybiau a thimau eraill o Gymru a thu hwnt, oedd Ras Gyfnewid Cestyll Cymru o Gaernarfon i Gaerdydd ar benwythnos yr 8fed a'r 9fed. Daeth yr ŵyl hon i fodolaeth yn 1982 ac fe'i trefnir gan glwb Les Croupiers o Gaerdydd. Patrwm cyfarwydd y ras yw deg cymal (deg ras unigol) o Gaernarfon i'r Drennewydd ar y Sadwrn a deg arall i Gaerdydd ar y Sul, cymalau amrywiol o ran hyd a thirwedd, yr hwyaf tua 13 a'r byrraf tua 8 milltir. Bu clwb Sarn Helen yn cystadlu yn y ras ers 2007 a'r canlyniad gorau fu cyrraedd y 9fed safle yn 2018. Tasg anodd fydd efelychu'r perfformiad hynny ond gwnaeth ugain o aelodau'r clwb dan reolaeth Lyn ac Eileen Rees yn dda iawn i ddod yn 18fed eleni er gwaethaf absenoldeb llawer un trwy anafiadau. Gyda chlybiau cryfaf Cymru a Lloegr yn bresennol (gan gynnwys tîm yn cynrychioli Palestina eleni) mae pob un o'r cymalau'n gystadlaethau ffyrnig ac ymdrechodd pob aelod o'r clwb gant y cant. Annheg yw canolbwyntio ar unrhyw un ohonynt ond rhaid llongyfarch Caryl Wyn Davies ar ddod yn 1af o'r merched ar y 10.8 milltir heriol o Ddinas Mawddwy i Foel. Cafwyd canlyniadau cryfion hefyd gan Eirwyn Roberts (7fed ar y 10.6 milltir i Lanfair ym Muallt), Ken Caulkett (15fed ar y ddringfa fawr i ben Epynt), Siôn Price (8fed dros y 12.5 milltir i Dorpantau) a Mark Rivers (15fed o Ferthyr i Abercynon.) Rhedwyr clwb Sale oedd yn fuddugol dros y 207.1 o filltiroedd i gastell Caerdydd eleni ond clod i glybiau Pontypridd ac Aberdâr ar ddod yn ail a thrydydd.

Ar y 15fed o Fehefin bu tri o redwyr Sarn Helen yn rhedeg Marathon



Llwybr Cymru yng Nghoed y Brenin a llwyddodd Glyn Price i ennill dosbarth y dynion dros 50 gan ddod yn 20fed allan o 265 yn y ras mewn 3 awr 43 munud a 55 eiliad, amser sy'n dangos cymaint mwy anodd yw marathon dros lwybrau caregog a bryniog Coed y Brenin, gyda Nigel Davies yn ei ddilyn i orffen yn 33ain mewn 3.58.22. Bu rhaid i Ken Caulkett dynnu allan rhyw 6 milltir o'r diwedd. Yr oedd ras hanner marathon dros yr un dirwedd yn rhan o'r achlysur a gwnaeth Mark Rivers yn ardderchog i ddod yn 25ain allan o

460 o redwyr (ac yn 10fed yn ei ddosbarth) mewn 1 awr 50 munud a 36 eiliad gydag Eleri Rivers (2.5.40 ac yn 7 fed yn ei dosbarth) a Marc Davies (2.34.58) yn dilyn.

Hefyd ar y 15fed o Fehefin aeth Elisha Jones i Abermaw i redeg ras 10



cilometr gan lwyddo i osod record bersonol o 53 munud a 53 eiliad.

Ar y 23ain o Fehefin cynhaliwyd hanner marathon Abertawe

ac yr oedd 8 o redwyr Sarn Helen ymhlith y 4,626 a'i rheddodd mewn tywydd eithaf trymaidd. Y cyntaf i orffen oedd Irfon Thomas mewn 1 awr 31 munud ac 11 eiliad yn safle 227 gyda Steffan Thomas (1.39.55) yn dilyn yn safle 536. Llwyddodd Delyth Crimes (1.46.56) i naddu 2 eiliad oddiar ei hamser gorau dros y

pellter gan ddod yn 8fed yn ei dosbarth. Y canlyniadau eraill oedd: Matthew Walker (1.49.48), Enfys Needham Jones (1.56.05), Nicola Williams (1.59.54), Elisha Jones (2.6.17) a Siân Bela Jenkins (2.13.11.)

Yn ôl ar yr ail o'r mis cafodd Tomos Morgans hwyl ar gystadlu yn Ras y Cerrig Glas ym Maenclochog gan orffen yn 8fed (ac yn 3ydd yn nosbarth y dynion agored) mewn 1 awr 3 munud a 59 eiliad dros weunydd y Preselau ar ddiwrnod garw.

Ymhellach fyth yn ôl yn niwedd mis Mai bu Tomos yn rhedeg hefyd yn ras 4.5 milltir heriol Penrhyn Dinas ym Mhwl Gwaelod gan orffen yn 13eg mewn 37 munud a 48 eiliad gyda'i gyd-aelodau Rhys Williams, Nigel Davies a Haydn Lloyd yn dilyn.

Ar y 30ain o Fai gorffennodd Caryl Wyn Davies yn 3ydd ar y traeth yn ras 10 cilometr Abersoch mewn 43 munud a 2 eiliad gyda'i chyd-aelodau Siân Bela Jenkins a Lisa Naden Hughes yn dilyn.

Yna ar y 31ain o Fai cynhaliwyd ras Tri Pharc Llandeilo, ras 10 cilometr dros lwybrau parciau Dinefwr, Penlan a Le Conquet. Nigel Davies oedd y cyflymaf o redwyr y clwb y tro yma (yn 20fed allan o 246 mewn 43 munud a 35 eiliad) gyda Carwyn Davies (43.48) yn dynn ar ei sodlau ac ychydig o flaen Steffan Thomas (48.32), Marc Davies (58.05), Joanne Heath (62.24), Nicola Williams (64.33) ac Elisha Williams (64.41.)

Tim rygbi ieuencid Llambled yn ennill cwpan ieuencid Ceredigion

Llambled – 12

Aberystwyth – 10

Yng nghanol amodau cythryblus Storm Hannah, cafwyd brwydr agos rhwng y ddau dîm wrth i Llambled ennill o drwch blewyn mewn gêm ddarbi corfforol a ffyrnig yn Aberaeron.

Wrth chwarae i mewn i'r gwynt, rheolodd Llambled yr ugain munud agoriadol cyn i Aberystwyth agor y sgorio wrth i fechgyn Llambled golli'u ffocws yn dilyn cic o'u llinell 22 metr eu hunain. Yna, trosglwyddwyd y momentwm yn llwyr i ochr Aberystwyth, wrth i'r blaenwyr pwerus sicrhau mwyafrif y meddiant am weddill yr hanner gyda bechgyn Llambled yn amddiffyn yn arwrol ar eu llinell gais i stopio'r gŵyr o Ogledd y Sir i ychwanegu unrhyw bwyntiau yn ystod yr hanner cyntaf.

Dechreuodd Llambled yr ail hanner yn wych wrth iddynt dreulio llawer o amser yn agos i linell gais Aber. Yn y diwedd, roedd y pwysau'n ormod i Aber, pan wnaeth y prop pen-tynn Guto Jones chwalu dros y llinell gais i sgorio yn y gornel a dod â'r sgorfwrdd yn gyfartal.

Am fwyafrif yr ugain munud nesaf, roedd hi'n ornest agos iawn wrth i amddiffyn y ddau dîm ddod i'r brig i atal ei gilydd, cyn i Aberystwyth ildio cic gosb. Ciciodd Osian Jones y bêl yn syth i'r gornel, wrth i Llambled wthio'u ffordd dros y llinell gais yn dilyn sgarmes symudol, gyda'r prop Guto Jones yn sgorio'i ail. Yna, fe drosodd Osian Jones y cais er mwyn ychwanegu'r pwyntiau a fyddai'n sicrhau'r fuddugoliaeth i Llambled.

Ychydig funudau cyn y chwiban olaf, ddaeth Aber yn ôl i sgorio cais haeddiannol ger yr ystlys er mwyn cau'r bwlch i ddau bwynt, ond ar ôl methu'r trosiad, fe ddaliodd bechgyn Llambled ymlaen am yr ychydig funudau olaf er mwyn ennill Cwpan Ceredigion.

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi er gwaethaf y tywydd!

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnom ni gyd – dyma eich cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus



Mae angen help trigolion, busnesau, sefydliadau, gweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn Llanbedr Pont Steffan a'r cymunedau o gwmpas! Mae Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Transition Llambled eisiau cynnwys eich syniadau wrth ddatblygu cynllun gweithredu i:

1. Cefnogi Llambled i ddod yn dref ddi-garbon
2. Cynyddu bioamrywiaeth
3. Cynyddu ein gallu lleol i wrthsefyll tywydd eithafol ac effeithiau eraill yn yr hinsawdd

Felly rydym am gael cyfraniadau ar y themâu canlynol:

Ynni, Defnydd ac Arferion, Trafnidiaeth, Gwastraff, Bwyd, Tyfu a Ffermio, Bioamrywiaeth, Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu â Phobl, Economi Leol.

Gwydnwch - sut allwn ni gadw'r hyn rydyn ni wir eisiau ei gadw?

Diddymu - beth sydd angen i ni ei wneud er mwyn peidio â gwneud pethau'n waeth?

Adferiad - Beth allwn ni ei achub i'n helpu gyda'r anhawsterau a'r heriau sydd i ddod?

Cysylltwch â Chyngor Tref Llanbedr Pont Steffan ar:
Swyddfa Clerc y Dref, 7 Treherbert Street, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8EP
amgylchedd.environment@lampeter-tc.gov.uk

Llanllwni

Eglwys Sant Luc

Clwb 100 mis Mehefin:

1. £15.00 Derek Evans (rhif 84)
2. £10.00 Parch. Beth Davies (118)
3. £10.00 Arwel Howells (115)

Diolch i bawb am gefnogi.

Mae aelodau Sant Luc yn dymuno llongyfarch y Parch. Canon Eileen Davies sydd wedi ei choladu yn Archdeacon Ceredigion yng Nghadeirlan Tŷ Ddewi ar Fehefin 20fed. Pob dymuniad da iddi yn y swydd.

Bydd noson goffi flynyddol yr Eglwys yn y Neuadd Gymunedol nos Iau Gorffennaf 18ed am 7 o'r gloch.

Ysgol Llanllwni

Croesawn Corah Whitworth i'r dosbarth Cyfnod Sylfaen. Dechreuodd ar ôl gwyliau Pasg ac mae wedi setlo yn ardderchog gyda ffrindiau o bob oed!

Yn ein sesiynau Campau'r Ddraig rydyn wedi bod yn datblygu ein sgiliau athletau a gêmâu tîm. Mae'n dda gweld cynifer o blant o'r Cyfnod Sylfaen ac Allweddol Dau yn mynychu yn wythnosol ac yn mwynhau.



Aeth grŵp o oed cymysg o blant i berfformio ar lwyfan Gŵyl Fwyd Castell Newydd Emlyn. Diolch i Fenter Iaith am y gwahoddiad ac i'r rhieni am gefnogi. Diolch i Mrs. Bethan Hopkins-Jones am gyfeilio. Gwnaeth y plant ganu ac adrodd yn ardderchog – da iawn blant!

Aeth rhai plant o'r Adran Iau i chwarae pêl-droed yn Saron gan fwynhau yn fawr iawn.



Rydyn bob blwyddyn yn cefnogi twrnament pêl-droed yn Llanfihangel-ar-arth. Aeth tîm o flynyddoedd 4/5/6 i gystadlu ar y noson gynta. Aelodau'r tîm oedd Elan, Marek, Nikola, Tilly, Tudur, Caio, Iestyn, Siôn ac Efa. Buont yn chwarae sawl gêm gan ennill rhai gemau. Y noson ddilynol tro y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn 3 ydoedd. Cawsant bum gêm gan chwarae yn dda iawn- daliwch ati! Aelodau'r tîm oedd Osian, Stanley, Steffan, Einir, Erin, Cian, Elliw a Liwsi. Llongyfarchiadau i Erin am gael ei dewis yn chwaraewraig y noson- da iawn ti.

Aeth aelodau'r Urdd o Ddosbarth y Cyfnod Sylfaen i ysgol Carreg Hirfaen am fore o Gêmâu Potes yr Urdd. Roeddent wedi mwynhau'r amrywiaeth o gêmâu ac yn llawn storïau yn dod 'nôl!

Diolch i bawb a gefnogodd ein cynllun Bags2School drwy ddod â bagiau o hen ddillad/esgidiau/bagiau i'r ysgol. Derbyniom £128 gan y cwmni. Fe fydd yr un nesaf yn nhymor yr Hydref.

Cynhaliwyd ein mabolgampau ysgol ar brynhawn Llun, 24ain Mehefin ar gaeau chwarae y pentref. Ar ôl cystadlu brŵd tîm Teifi oedd yn fuddugol ac yn ennill y darian fawr dan gapteniaeth Tilly a Marek. Enillwyr y tarianau yr adrannau oedd- Bechgyn Adran Iau - Tudur, Merched Adran Iau - Marek, Bechgyn Cyfnod Sylfaen - Stanley, Merched Cyfnod Sylfaen - Megan. Diolch i ddisgyblion Blwyddyn 6 am roi'r tarianau. Enillwyr y medalau i bob blwyddyn oedd - Bl 6 - Marek, Bl 5 - Tudur, Bl 4/3 - Caio, Bl 2 - Stanley, Bl 1 - Elliw, Derbyn - Loti, Meithrin - Megan, Ysgol Feithrin - Jack a Betsan. Ar ôl gorffen y rasys cafwyd hwyl wrth i'r timoedd dynnu'r rhaff

yn erbyn ei gilydd. Diolch i Catrin George am gael fenthyg y rhaff. Hoffwn ddiolch i Mr. Eric Davies a Mr. Tom. Bowen am fod wrth y gât ac am sicrhau bod y cae yn barod. Diolch i Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol am gynorthwyo, gwerthu raffl a bod yng ngofal y pop a'r creision a diolch i Siop y Pentre am roi'r creision. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi. Fe fuodd yn brynhawn hwylus iawn.

Cofiwch am y Diwrnod Hwyl a fydd Dydd Sul yma, 7fed o Orffennaf, yn dechrau am 1:00 ar gaeau chwarae'r pentref. Bydd yna garnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, amrywiaeth o stondinau, barbiciw a lluniaeth. Yn newydd eleni fe fydd yna sêl cist car. Y Llywyddion yw Dave a Tracey, Siop y Pentre. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Mehefin - 1af -£10 – Sophie Benson, Arfron, Llanybydder; 2ail - £5 – Caio Benson, Hafoduon, Llanybydder; 3ydd - £5 – Rhodri Evans, Maesgwyn, Llanybydder.



Buodd Dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn dathlu pen-blwydd Sali Mali yn 50 oed drwy wneud amrywiaeth o weithgareddau yn ystod yr wythnos – gwrando ar straeon a chanu caneuon Sali Mali, gwaith celf, gwisgo i fyny a chael parti lle ymunodd yr Adran Iau yn y dathlu!!



Roedd yn ddiwrnod cyffrous iawn i'r ysgol ar Ddydd Sadwrn, Mehefin 22ain gan ei bod yn ddydd rasio'r car fformiwla F3D. Ar ôl llawer o waith cynllunio a pharatoi roedd popeth yn barod- y ceir wedi eu hadeiladu, y posteri, crysau-T a'r capiau yn barod. Roedd plant yr Adran Iau wedi dysgu a datblygu nifer o sgiliau newydd yn ystod y prosiect. Roedd yn braf gweld cymaint o rieni wedi dod i gefnogi'r digwyddiad ym mharc Caerfyrddin. Braint yw cyhoeddi mai tîm Ysgol Llanllwni ddaeth yn fuddugol allan o'r wyth ysgol oedd yn rasio'r ceir. Da iawn tîm "Lledrith Llachar Llwni".

Hoffwn ddiolch i Dr. Demetris Pleatos a Mr. Hywel Rees am arwain y prosiect. Diolch i Ysgol Nantgaredig am beilotu'r prosiect ac i Gwmni Ceir Citroen a Gegin Fach y Wlad am fod yn Brif Noddwyr i ni. Diolch hefyd i'r holl noddwyr eraill am eich cefnogaeth.



Clwb Clonc

Gorffennaf 2019

£50 rhif 497 :

Mrs Ann Douch, Pumsaint.

£50 rhif 186 :

Mrs Helena Gregson,
Cwmann.

£25 rhif 114 :

Mrs Elen Davies, Drefach.

£25 rhif 155 :

Mrs Rhian Evans, Cwmann.

£20 rhif 74 :

D. J. Elfyn Davies, Ffarmers.

£20 rhif 473 :

Mrs Ann Thorne, Llanllwni.

£15 rhif 434 :

Mrs Morfudd Slaymaker,
Llambled.

£15 rhif 150 :

Mrs Gwyneth Evans,
Pentrebach.

£10 rhif 59 :

Hanna Davies, Drefach.

£10 rhif 28 :

Fiona Davies, Cwmann.

£10 rhif 235 :

Mrs Mair Jenkins, Nebo.

£10 rhif 299 :

Esther Jones, Cwmann.

£10 rhif 488 :

Eifion Williams, Cwmann.

£10 rhif 98 :

Dannie Davies, Gorsgoch.

£5 rhif 105 :

Mrs Sadie Davies, Llambled.

£5 rhif 169 :

Mrs Jean Evans, Gorsgoch.

Altyblaca

Ar wellhad

Gobeithio fod Elin Watkins, 2 Cadabowen Cottages yn well yn dilyn ei llaw driniaeth yn ddiweddar.

Silian

Diolch

Dymuna Rhythwyn a Gwyneth, Maesyradwy ddiolch o galon am yr holl gareidgrwydd a haelioni, ynghyd â'r dymuniadau da dderbyniwyd ar ddathlu eu penblwyddi arbennig a'u priodas ddiemwnt yn ystod Ebrill a Mai. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr.

Os ydych am ymaelodi â **Chlwb Clonc** - llenwch y ffurflen ar dudalen 12 a'i ddychwelyd i Maesglas, Drefach yn y diwrnodau nesaf. Diolch.

Llanllwni

Cylch Meithrin Llanllwni

Yr ydym wedi cael cyfnod prysur iawn eto yn y Cylch Meithrin. Ar ddechrau'r mis bûm yn creu cardiau Sul y Tadau gan ddefnyddio siapau gwahanol i greu roced. Mae wedi bod yn fis o ddathlu ar gyfer Sali Mali a oedd yn 50 oed. Cafwyd parti mawr yn y Cylch ar y 19eg o Fehefin, gyda'r plant yn brysur yn creu hetiau, yn coginio ac yn addurno cacen. Diolch yn fawr iawn i Miss Bethan am ymuno â ni yn y parti wedi gwisgo lan fel Sali Mali. Pen-blwydd hapus iawn Sali Mali yn 50 oed. O un pen-blwydd i'r llall, aeth y cylch i wyl flynyddol y mudiad meithrin yn yr ardd fotaneg eleni i ddathlu pen-blwydd Dewin a Doti yn ddeg oed. Cafodd y plant eu diddanu gan Heini ac hefyd Siani Sionc sef cymeriad lleol adnabyddus. Braff oedd gweld Sian Elin Williams ar y llwyfan. Fe wnaeth y plant fwynhau mas draw. Mae gennym gyfnod prysur ar y gorwel hefyd, mabolgampau'r ysgol, mabolgampau y mudiad meithrin a'r trip haf blynyddol.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Cylch – diolch yn fawr i bawb wnaeth fynychu. Fe etholwyd y canlynol i'r pwyllgor, Cadeirydd – Glenys Evans, Is-Gadeirydd - Rhian Powell, Trysorydd – Caryl Jones, Ysgrifenydd – Rhian Davies a Gohebydd y wasg - Iona Lloyd-Davies. Mae'r pwyllgor yn gwneud gwaith arbennig i sicrhau Cylch Meithrin sy'n medru cynnig cyfleoedd i blant meithrin yr ardal – felly diolch yn fawr iawn i bawb sydd ar y pwyllgor.

Os ydych am fwy o fanylion ynglŷn â Cylch Meithrin Llanllwni, cysylltwch â Nerys ar 01559 395624 neu trwy e-bost cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk. Cofiwch edrych ar ein tudalen Facebook am y newyddion diweddaraf.

Cylch Ti a Fi

Yn y Cylch Ti a Fi, yr ydym wedi bod yn gwneud lluniau blodau yn yr ardd drwy ddefnyddio gwaed poteli. Bu'r plant hefyd yn creu Cardiau Sul y Tadau. Fe fydd amryw o weithgareddau ar y gorwel ym mis Gorffennaf – gan obeithio os bydd yr haul yn gwenu all y plant fynd tu allan.

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynhawna dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1 a 3 y prynhawn ar gampws yr ysgol gynradd. Pris y sesiwn yw £1.50 y teulu. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a thadcu's i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol gwithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Diolch

Dymuna Dewi Davies, Glanafon, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, llongyfarchion a rhoddion a gafodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Cadarnhaf fod yr holl rhoddion, sef £400, wedi eu danfon i Ymchwil Cancr Cymru. Diolch i Bawb.

Dymuna Susan Evans 13 Bryndulais ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd yn ystod dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Diolch i Bawb.

Archddiacon Newydd

Nos Iau Mehefin yr 20fed mewn gwasanaeth o Hwylol Weddi Corawl yng Nghadeirlan Tyddewi sefydlyd

a choladwyd yr Hybarch Eileen Davies (Gwndwn, Llanllwni) yn Archddiacon Ceredigion. Teithiodd tyrfa gref i'r gadeirlan i'w chefnogi ac i fod yn rhan o'r gwasanaeth urddasol ac ysbrydol. Yn ystod y gwasanaeth, a oedd dan arweiniad Deon Tyddewi, urddwyd Eileen yn Archddiacon gan Esgob Tyddewi ac fe'i sefydlwyd yn sedd 'Llandyfriog' yn y côr. Ar ôl y gwasanaeth dychwelodd nifer i Aberteifi lle cafwyd cyfle i ddathlu a rhannu o swper arbenig iawn.

Mae Eileen, a dreuliodd yr 11 mlynedd diwethaf yn Offeiriad â Gofal Grŵp Eglwys Llanerchaeron ac yn ymgynghorydd materion gwledig yr esgobaeth, wedi cymryd lle yr Hybarch Ddr. William Strange yn dilyn ei ymddeoliad. Fel Archddiacon mi fydd yn goruchwilio gwaith yr Eglwys yng Nghymru yng Ngheredigion, Dyffryn Teifi a gogledd Sir Benfro fel un o brif swyddogion yr esgobaeth ac yn cynorthwyo'r Esgob. Ystyrir y swydd yn gryn ffrainc ac mae Eileen yn dilyn ôl troed ei chyn ficer, y diweddar Hybarch Sam Jones a fu'n Archddiacon yn y 1980au.

Yn ogystal â gwaith yr Archddiacon mi fydd yn gwasanaethu yn Ardal Weinidogaeth Leol Deoniaeth Llambled ac Uwch Aeron ac yn benodol ym mhlwyfi Llanllwni, Llanybydder, Llanwenog a Llanwnnen. Lleolir ei swyddfa yn Ficerdy Llanllwni (noder y rhif ffôn newydd sef 01559 395 775).

C.Ff.I. Llanllwni

Helo a chroeso i rifyn arall gyda ni Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni, ac mae'n braf dweud bod pethau wedi tawelu tipyn y mis diwethaf ar ôl prysurdeb y rali, a bellach rydym yn gallu dweud bod ein cinio clwb blynyddol wedi cael ei gynnal. Cafodd y ginio i'w chynnal ar y 24ain o Fai, yng Ngwesty'r Ivy Bush lle cawsom ni noson i'w chofio yng nghwmni ein gilydd er mwyn dathlu'r cryn dipyn o lwyddiant mae'r clwb wedi profi dros y flwyddyn diwethaf. Roedd hi'n braf gweld y cynifer o bobl a ddaeth i ddathlu llwyddiannau'r clwb gyda ni. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi ein cefnogi ar hyd y flwyddyn diwethaf boed mewn unrhyw ffordd ac mae'r gefnogaeth wir yn cael ei werthfawrogi o fewn y clwb. Bellach mae cystadlaethau chwareon y sir hefyd wedi mynd heibio lle cynrychiolwyd y clwb gyda hîm Rownderi Cymysg, Pêl- rwyd,

Pêl-droed 5 bob Ochr Dynion – Llanllwni = 2il


Hoci Merched – Llanllwni = Cydradd 5ed

Rygbi 7 bob Ochr Dynion – Llanllwni / Cwmann = 5ed

Rygbi Cyffwrdd Cymysg – Llanllwni = 2il

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i ddymuno pob lwc i aelodau'r clwb sydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r clwb a'r sir yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, felly cadwch lygad allan am y clwb! Byr yw'r adroddiad am y mis yma oherwydd bod pethau wedi tawelu ers mis, ond dyma ychydig o ddyddiadau pwysig ichi ar gyfer y dyddiaduron:

Diwrnod Hwyl ym mharc Llanllwni am 1 o'r gloch yn y prynhawn ar Ddydd Sul y 7fed o Orffennaf. Dyddiad bach arall i'r calendr yn barod yw ein Sioe Flynyddol a fydd yn cael ei chynnal ar Dydd Llun Gŵyl y Banc, 26ain o Awst. Cofion Mared a Lowri.



Eglwys Llanwenog

“Dwi erioed wedi bod lan ac os na af i heddi, af i byth!”

Dyma un o'r sylwadau glywyd ar bnawn Gwener, Mehefin 28ain wrth i aelodau Eglwys Llanwenog agor drysau'r tŵr, gan roi cyfle i bobl ddringo'r 90 gris troellog, cul i'r copa. Yno roedd yr olygfa panoramig yn wled i'r llygaid a'r synhwyrau a'r haul tanbaid yn ychwanegu at y profiad. Mae'n debyg ei fod wedi ei adeiladu gan Syr Rhys ap Thomas i ddathlu buddugoliaeth Brwydr Bosworth ym 1485.

Y cyntaf i fentro lan oedd Llywydd y Cynulliad Elin Jones ac yn fuan wedyn daeth Archdeon Ceredigion Eileen Davies i gwblhau'r gamp.

Wedi dod nôl a traed ar y ddaear, roedd digon o de a phancws ffres yn disgwyl pawb. Gwnaed elw sylweddol tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020 - digwyddiad gwahanol eto i godi arian i'r gronfa leol.

Drefach a Llanwenog

C.Ff.I. Llanwenog

Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn yng nghalender y clwb yn ddiweddar. Cawsom nifer o nosweithiau difyr fel noson hwylus yng nghwmni Wendy Davies yn addurno cacennau ar gyfer y Pasg a noson ddiddorol yng nghwmni Lowri Jones o glwb Lledrod yn sôn am ei thaith tramor i'r Ffindir. Cawsom noson addysgiadol iawn pan aeth aelodau a ffrindiau'r clwb ar ymweliad i fferm Coombe ger Hendy Gwyn ar Daf.

Bu rhai o aelodau'r clwb yn cystadlu yng ngala nofio'r Sir ar ddechrau mis Ebrill a llongyfarchiadau i bawb gan sicrhau bod y clwb yn ail ar ddiwedd y noson. Aeth aelodau iau y clwb draw i Neuadd Pontsian i gystadlu yng nghystadleuaeth cwis y sir, noson o grafu pen!

Diwedd mis Ebrill, bu Elin Davies yn cystadlu yn Niwrnod Maes Cymru a llongyfarchiadau iddi am ddod yn drydydd fel stocman iau Cymru.

Ar ôl noson o baratoi ar gyfer y mabolgampau Sir yng Nghaerwenog daeth y tîm pêl-droed yn gyntaf a'r tîm pêl-rwyd a'r rownderi yn drydydd. Dymunwn wellhad buan i Lauren Jones a anafwyd ei throed wrth chwarae pêl-rwyd.

Aeth dros ugain o geir ar ein helfa drysor flynyddol eleni. Diolch i Luned Mair a'r teulu am drefnu helfa ddiddorol o Drefach trwy Lanwenog a Phontsian cyn cyrraedd Tafarn Glanyrafon yn Nhalgarreg am bryd o fwyd. Llwyddodd Gwennan Jenkins a'r teulu a Pete, Meinir a Huw i gael yr un marciau ond dyfarnwyd Gwennan Jenkins a'r teulu yn fuddugol am gwblhau'r helfa yn yr amser cyflymaf.

Cynhaliwyd y Rali eleni ar fferm Ynysforgan yn Lledrod. Bu aelodau'r clwb yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer y cystadleuthau. Cipiodd Carwyn a Meinir Davies y wobr gyntaf am greu eitem i gyfleu Hwiangerdd a byddant yn cynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Pob Lwc iddynt. Daeth y dawnsio, gêm yr oesoedd, barnu stoc, cneifio a'r Prif Gyloch yn ail a'r trin gwlân yn drydydd. Uchafbwynt y diwrnod i'r holl aelodau a ffrindiau'r clwb yw ein bod wedi dod i'r brig ar ddiwedd y dydd. Bu dathlu mawr yng Nghaerwenog ar y nos Lun canlynol a diolch i bawb a sicrhodd y llwyddiant yma i'r clwb. Edrychwn ymlaen i gynnal Rali llwyddiannus y flynyddyn nesaf.

Ar nos Lun y 10fed o Fehefin, bûm yn ffodus o groesawu Geraint Morgan, Wyn Thomas a Steffan Bwlchmawr atom i'n seiat holi flynyddol. Cawsom noson ddifyr iawn yn eu cwmni. Tro ein llywydd am eleni sef Nia Evans oedd hi i'n diddanu ar 17eg o Fehefin, roedd wedi dod â nifer o eitemau o fewn y byd meddygaeth i ni gael eu gweld ac arbrofi. Roedd hi'n noson addysgiadol dros ben.

Gan fod rhaglen y flynyddyn yn dirwyn i ben ar ddiwrnod hiraf gerllaw, mae'n amser i ni fynd ar ambell i daith felly aethom draw i Lwyncelyn i go cartio ger y llu. Noson hwylus arall.

Bydd y clwb yn ail ddechrau nôl ym mis Medi felly cofiwch bod yna groeso i unrhyw un sydd am i ymuno â ni i gael hwyl.

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Cafwyd diwrnod mabolgampau hyfryd ar gaeau'r ysgol ar brynhawn dydd Gwener y pedwerydd ar ddeg o Fehefin. Ar ddiwedd prynhawn o gystadlu brwd daeth tîm Alltgoch i'r brig gan ennill Cwpan Coffa John a May Lewis, Talardd. Llongyfarchiadau i bawb oedd wedi cystadlu a diolch i'r holl rieni a ffrindiau a ddaeth i gefnogi eleni.



Da iawn i'r timoedd pêl droed bechgyn a merched a fu'n chwarae mewn twrnament yn Nhregaron yn ddiweddar. Llwyddodd y merched i gyrraedd y gêm derfynol gan golli 2-0 i Garreg Hirfaen.

Bu criw o flynyddyn 5 yn rhan o'r Sgwad 'Sgwennu a gynhelir gan Geredigion o dan arweiniad Mared Llwyd. Roedd yn gyfle i ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol ac roedd y

plant wedi mwynhau mas draw. Yn ogystal, bu Delor James yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar ysgrifennu cerddi, a phawb wedi elwa'n fawr o'r gwaith. Diolch Delor am ymuno gyda ni, rydym wedi mwynhau'ch

cwmni yn fawr.

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael llond lle o hwyl yn Chwaraeon Potes yr Urdd yn Llambled yn ddiweddar ac hefyd yn dathlu pen-blwydd pwysig Sali Mali yn 50 oed. Roedd yr ysgol yn llawn o bobl mewn gwisgoedd oren a bu te parti mawr!



Gan fod yr haf ar ddod bu elusen Tenovus yn siarad gyda disgyblion yr ysgol am bwysigrwydd gwisgo eli haul. Gwers bwysig inni gyd. Ymwelydd arall â'r ysgol oedd y mynach Bwdaidd o'r India, a fu'n dysgu mwy inni am grefydd a diwylliant Bwdaidd gyda'n disgyblion. Diolch i Hazel Thomas am drefnu.

Mae nifer o blant blwyddyn 6 wedi bod yn ymarfer ar gyfer cyngerdd Proms Ceredigion gyda nifer o ddisgyblion eraill yr ardal. Edrychwn ymlaen i'r gyngerdd ar ddechrau Gorffennaf.

Bydd y Cyngor Ysgol yn trefnu eu digwyddiad blynyddol ar gyfer codi arian tuag at eu helusen, sef elusen ar gyfer y byddar.

Pob dymuniad da i griw blwyddyn 6 a fydd yn ffarwelio â ni ddiwedd y tymor. Diolch o galon i griw mor hyfryd a bonheddig sydd wedi rhoi o'u gorau bob tro. Cofiwch gadw mewn cysylltiad a galw i'n gweld.

Cymdeithas Hŷn

Teithiwyd am Aberhonddu a'r glaw yn disgyn yn ysgafn. Aros am baned ar y ffordd, ac yna ymlaen nes cyrraedd Eglwys Gadeiriol Aberhonddu. Cael hanes yr Eglwys ac amser i edrych o amgylch am weddi dawel. Mynd ymlaen ychydig a'r glaw wedi cilio i Amgueddfa Gatrodol y Cymru Brenhinol. Roedd hon werth ei gweld. Mynd ymlaen am awr fach i'r dref a chael cwpanaid ac yna nôl i'r bws a mynd ar daith dros fryniau Bannau Brycheiniog nes cyrraedd Canolfan Garddio Ystrad a thybed a fydd plwyf Llanwenog yn fôr o liw yr haf hwn!!

Yna aethom i Landeilo am swper yng Ngwesty Calon Wen i roi clawr ar ddiwrnod bendigedig. Diolch i Betty ac Owen am drefnu.

Bydd y daith nesaf ar Orffennaf 10fed. Os am ddod, enwau i Jane Jones ar 480332.

Eglwys Llanwenog

Rydym fel aelodau Eglwys Santes Gwenog am ddanfôn ein llongyfarchiadau cynhesaf i Archddeon newydd Ceredigion, Eileen Davies. Braint oedd cael teithio i Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi ar noson odidog o Fehefin i fod yn bresennol mewn oedfa arbennig i gofnodi'r achlysur. Pob dymuniad da iddi wrth gychwyn y swydd newydd hon.

Cynhelir Helfa Drysor ar Nos Wener Gorffennaf 5ed gyda'r car cyntaf yn cychwyn o'r Eglwys am 6 o'r gloch. £5 y car. Gorffen yng Ngwesty'r Cross Hands, Llanybydder lle bydd swper ar gael. Anthony a Meryl Davies sydd wedi bod wrthi'n brysur yn trefnu eleni. Dewch i gefnogi!

Llongyfarchiadau i Rhys ac Annwen, Aberystwyth ar enedigaeth Betsan Elena yn ystod mis Mai. Chwaer fach i Anni ac wyres i Pauline Roberts-Jones, Tynporth.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Emyr Lloyd, Geryteify a fu farw yn sydyn yn ystod y mis. Cydymdeimlwn gyda'i briod Meryl, Louise a Haydn ar golli tad a gyda'r wyrion a'r gor-wyresau yn eu colled enfawr a gyda'r holl deulu sydd yn byw yn nalgylch CLONC. Preifat fu'r angladd yn Amlosgfa Aberystwyth.

Menter newydd

Pob lwc i deulu Cefnrhuddlan Uchaf gyda'u menter newydd - Llyn Cledlyn.



Gwledd mis Gorffennaf o'r Gegin

Rwyf am ganolbwyntio'r mis yma ar gynhwysion sydd ar eu gorau ym mis Gorffennaf, - hynny felly yn rhoi ysbrydoliaeth ar gyfer y rysettiau yma.

Cofiwch fanteisio ar fwynhau prydau bwyd allan yn yr awyr agored. Mwynhewch yr Haf!

Gareth

Pryd o ffa – gwahanol a blasus

350 g ffa

250 g Panacetta wedi'i ddarnio

Ychydig o fenyn a phersli

Dull:

1. Berwch y ffa am 10 munud, ac yna'u ddraenio. Tynnwch y croen oddiar y ffa.
2. Coginiwch y bacwn mewn padell ffrio gyda'r menyn, yna ychwanegwch y ffa a'r persli. Ffriwch am ychydig eto, a'i weini gyda bara fel dechreuwyd, neu fel rhan o'r prif gwr.

Salad Cyw Iâr – blasau ffres, hafaidd

4 brest cyw iâr

4 llwy fwrdd olew'r olewydd

Sest a sudd 2 leim

1 chilli coch wedi ei dorri'n fân

1 ewin garleg wedi ei dorri'n fân

1 mango wedi ei dorri'n ddarnau

½ winwnsyn coch wedi ei sleisio

200 g pŷs 'siwgar snap' wedi ei torri'n hanner

Ychydig o ddail salad

Dull:

1. Gwnewch marinêd gan ddefnyddio ½ yr olew, sest a sudd ½ leim, y chilli a'r garleg.
2. Curwch y cig rhwng dau darn o bapur 'parchment' nes eu bôn tua 1 cm o drwch, ac yna'u rhoi yn y marinêd.
3. Cynheswch radell, a choginiwch y darnau cyw iâr am tua 5 munud bob ochr.
4. Coginiwch y llysiau mewn sosban, a'u draenio
5. Cymysgwch y mango â'r olew, sudd, winwns a'r salad. Gosodwch ar blatiau, - torrwyd y ciw iâr yn ddarnau drosodd, a gweinwch.

'Kebabs' ffrwythau – sbeis a sglein

Mae modd amrywio'r ffrwythau i flas personol, ond rhaid cael siâp a lliw amrywiol.

2 afal, 1 Pînafal 1 banana, 1 nectarîn, 2 kiwi, mefus

1 llwy fwrdd olew, a siwgr brown

2 lwy fwrdd o sudd oren

½ llwy de sinamwn

Dull:

1. Cymysgwch yr olew, siwgr, sudd a'r sbeis.
2. Gosodwch y ffrwythau ar 'skewer', a brwsiwch â'r sglein siwgr.
3. Coginiwch ar y barbaciw neu gradell am tua 6-8 munud.
4. Gweinwch gyda hufen iâ neu crème-fraiche.



Cynhelir Sioe Llambod ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 6ed. Dyma lun o'r swyddogion. O'r chwith - Gwen Jones, Is-lywydd; David Davies, Is-gadeirydd; Delyth Jones, Llywydd; Ioan Williams, Ysgrifennydd; Dafydd Jones, Llywydd; Daniel Morgan, Cadeirydd.

Cwmsychpant



Pêl-droediwr disglair

Llongyfrachiadau i Wil Ifan Williams, Tawel ar ennill Chwaraewr y dydd, dan 6 oed yn Nhwrnament Pêl-droed Tregaron 2019.



Rali C FFI

Llongyfrachiadau mawr i Beca Jenkins, Hafan y Cwm ar ei llwyddiant ysgubol yn Barnu Stoc yn y Rali. Aeth Beca adref gyda 4 cwpan hardd. Pob lwc i ti Beca yn y Sioe Frenhinol cyn diwedd y mis.

Llangyfrachiadau i Carwyn a Meinir Davies, Caerwenog am ennill y gystadleuaeth 'Eitem i gyfleu Hwiangerdd' lle cafodd y ddau 99 marc allan o 100. Roedd yr eitem o waith y ddau sef Cloc hen ffasiwn yn tynnu sylw pawb a'i welodd a phob lwc i chwi eto yn y Sioe Frenhinol.

Gwelwyd Endaf Griffiths, Penlanfawr ar y llwyfan fel Ffarmwr Ifanc 2019-2020 ac fe gafwyd ganddo araith gofiadwy iawn o'r llwyfan. Mae Endaf yn aelod gweithgar iawn o G.F.F.I. Pontsian.

Llongyfrachiadau i aelodau C.F.F.I. Llanwenog ar ei llwyddiant yn ennill y Rali ac edrychwn ymlaen am beidio drafael ymhell i Rali 2020.

Graddio

Llongyfrachiadau mawr i Meinir Davies, Caerwenog ar raddio gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn Naearyddiaeth - B.Sc. Baglor mewn Gwyddoniaeth.

Pob lwc yn dy swydd newydd hefyd fel Swyddog Datblygu i Fenter Iaith Abertawe.



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**



CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

CFFI Ceredigion

Y Rali

Daeth tyrfa dda o aelodau a chefnogwyr ynghyd yn Rali Flynyddol C.Ff.I. Ceredigion ddydd Sadwrn 1 Mehefin 2019. Enillwyd llynedd, Lledrod, oedd yn cynnal y Rali ac yn darparu'r anifeiliaid ar gyfer y cystadlaethau barnu, yr holl stiwardiaid a oedd eu hangen, ynghyd â darparu'r gefnogaeth ariannol a noddwyr ar gyfer y diwrnod prysur hwn. Cynhaliwyd y Rali a'r ddawns ar fferm Ynysforgan drwy garedigrwydd Mr a Mrs Endaf Jenkins a'r teulu.



Diolch hefyd i Lywydd y Dydd, Mr Geraint Lloyd, am ei bresenoldeb a'i gymorth. Diolch i Brif Noddwr y Rali sef cwmni MMP, Aberystwyth a Noddwyr y Cystadlaethau sef Rhiannon, Tregaron; GG Designs; New Quip; Blodau'r Bedol; P S Higgins; Tai Ceredigion; Hwylusydd Tai Ceredigion; Emyr Davies; DAG Jones; HSBC; Edwards Contracting; Cneifio Bont; Ystywyth Vets; Barclays a LAS Recycling. Diolch i Mart Tregaron am fodloni i gynnal y gystadleuaeth Barnu Gwartheg Duon Cymreig yno.

Yn y Rali, a gafodd ei drefnu gan Drefnydd Sir, Anne Jones a'r Swyddog Gweinyddol a Marchnata, Tomos Lewis, gwelwyd aelodau o bob cwr o'r sir yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sydd, heb os, yn ffenest siop i'r 17 o glybiau a fu'n cystadlu.

Trwy gydol y dydd, roedd yna gystadlaethau tebyg i goginio, crefft, gosod blodau, coedwigaeth, cneifio, dawnsio, Arddangosfa Prif Gylch, ac ati – gyda tua 400 o aelodau'r sir yn cystadlu ynddynt. Enillwyd y rali eleni oedd Clwb Llanwenog, gyda Felin-fach a Phenparc yn gydradd ail.

Hwiangerddi oedd thema'r Rali ac fe fydd yr holl enillwyr yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd ym mis Gorffennaf.

Uchafbwynt y dydd oedd seremoni'r coroni. Cafodd Elen Lloyd-Jones o glwb Pontsian ei choroni yn Frenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn, a

phenodwyd Endaf Griffiths, Pontsian yn Ffermwr Ifanc y flwyddyn. Am y trydydd tro yn hanes C.Ff.I. Ceredigion gwelwyd dirprwion benywaidd a gwrywaidd yn camu i'r llwyfan, sef Mared Lloyd-Jones, Llanddewi Brefi; Carys Jones, Bro'r Dderi; Rhodri Griffiths, Llangwryfon; a John Jenkins, Lledrod.

Canlyniadau

Barnu Gwartheg Duon Cymreig dan 26

1. Dewi Jenkins, Talybont; 2. Dyfrig Williams, Llangwryfon; 3. Llyr Jones, Penparc.

Barnu Gwartheg Duon Cymreig dan 21

1. Sioned Evans, Llanddewi Brefi; 2. Glesni Thomas, Pontsian; 3. Bedwyr Siencyn, Talybont.

Barnu Gwartheg Duon Cymreig dan 16

1. Beca Jenkins, Pontsian; 2. Llyr Davies, Llangwryfon. 3. Ynyr Siencyn, Talybont.

Barnu Gwartheg Duon Cymreig dan 11

1. Talybont; 2. Llangwryfon; 3. Pontsian.

Barnu Merlod Mynydd Cymreig Adran A dan 26

1. Gwawr Edwards, Llangeitho; 2. Glyn Hughes, Mydroilyn a Dyfrig Williams, Llangwryfon

Barnu Merlod Mynydd Cymreig Adran A dan 21

1. Alwena Jenkins, Talybont; 2. Rhodri Griffiths, Llangwryfon; 3. Gwion Hughes, Mydroilyn.

Barnu Merlod Mynydd Cymreig Adran A dan 16

1. Alaw Silvestri-Jones, Caerwedros; 2. Gwenan Owen, Mydroilyn; 3. Sian Cleaton, Llanddeiniol.

Barnu Merlod Mynydd Cymreig Adran A

1. Mydroilyn; 2. Llangeitho; 3. Felinfach

Barnu Defaid Mule Cymreig dan 26

1. Dyfrig Williams, Llangwryfon; 2. Ifan Morgan, Penparc; 3. Gethin Hughes, Llanddeiniol

Barnu Defaid Mule Cymreig dan 21

1. Teifion Morgan, Penparc; 2. Guto Lewis, Llanddeiniol; 3. Ben Lewis, Llanwenog

Barnu Defaid Mule Cymreig dan 16

1. Ifan Davies, Llanddeiniol; 2. Beca Jenkins, Pontsian; 3. Bedwyr Siencyn, Talybont

Barnu Defaid Mule Cymreig dan 11

1. Llanddeiniol; 2. Llanwenog; 3. Llangwryfon.

Barnu Stoc

1. Llangwryfon; 2. Talybont; 3. Caerwedros

Arddangosfa'r Ffederasiwn

1. Trisant; 2. Penparc; 3. Llangwryfon

Eitem i Gyfleu Hwiangerdd

1. Carwyn Davies a Meinir Davies, Llanwenog; 2. Rhainnon

Davies a Hawen Morris, Caerwedros 3. Lowri Davies a Dion Davies, Mydroilyn.

Blodau – 'Chwedlau'

1. Cari Davies, Tregaron; 2. Cerys Evans, Felinfach; 3. Megan Biddulph, Llanddewi Brefi.

Coginio – 'Triawd o Fwyd Stryd'

1. Carys Jones a Ffion Evans, Felinfach; 2. Megan Lewis a Naomi Nicholas, Pontsian; 3. Fflur Davies a Leah Griffiths, Penparc.

Crefft – 'Pyped'

1. Alaw Mair Jones, Felinfach; 2. Bleddyn Jones, Llanwenog; 3. Seren Pugh, Talybont.

Cystadleuaeth yr Aelodau

1. Felinfach; 2. Bro'r Dderi; 3. Llanwenog

Cneifio

1. Ifan Davies a Huw Lewis, Trisant; 2. Gethin Thomas a Ieuan Davies, Tregaron.

Trin Gwlân

1. Bedwyr Siencyn, Talybont; 2. Elen Lloyd-Jones, Pontsian; 3. Ffion Jenkins, Llanwenog.

Canu Unigol a Grŵp

1. Talybont; 2. Mydroilyn; 3. Caerwedros

Dawnsio

1. Felinfach; 2. Llanwenog; 3. Tregaron

Gwisgo i Fyny

1. Alaw Fflur Jones ac Ella Evans, Felinfach; 2. Lois Tudor ac Ella Williams, Trisant; 3. Ffion Williams a Gwenno Dark, Llanddewi Brefi

Tro ar Hwiangerdd

1. Mydroilyn; 2. Felinfach; 3. Llangeitho

Sioe Ffasiwn

1. Llangeitho; 2. Llangwryfon; 3. Tregaron.

Gwaith Coed – 'Ffynnon Gofuned'

1. Marc James ac Osian Rees, Penparc. 2. Aled Jones a Carwyn Lloyd, Llangeitho; 3. Llyr Davies ac Osian Jones, Caerwedros

Palet Wedi Ei Ailgylchu

1. Tomos Jones a Scott Grota, Penparc; 2. Llion Thomas a Ieuan Morgan, Llanddeiniol 3. Dion Evans a Llyr Rees, Pontsian ac Osian Dafis a Preston Wells, Caerwedros

Gêm yr Oesoedd

1. Mydroilyn; 2. Llanwenog 3. Llanddewi Brefi

Ras Rhwystr Dall

1. Owain Rees a Dafydd Eynon, Penparc; 2. Delyth Evans a Steffan Evans, Bro'r Dderi; 3. Dilwyn Harries ac Iwan Morris, Llanddeiniol Llywelyn Morgan a Bleddyn Morgan, Troedryaur

Arddangosfa Cylch

1. Penparc; 2. Llanwenog; 3. Llanddewi Brefi

Tablo 'Hwiangerddi'

1. Llangwryfon; 2. Felinfach 3. Trisant.

Tynnu'r Gelyn – Merched

1. Llanddewi Brefi

Tynnu'r Gelyn Iau - Felinfach

Gwneud Arwydd - Mydroilyn

Barnu Stoc

Unigolyn Uchaf 16 oed neu iau – Beca Jenkins, Pontsian

Unigolyn Uchaf 21 oed neu iau – Teifion Morgan, Penparc

Unigolyn Uchaf 26 oed neu iau – Dyfrig Williams, Llangwryfon

Unigolyn Uchaf yn y Barnu

Gwartheg – Beca Jenkins, Pontsian

Unigolyn Gorau am y rhesymau Cymraeg – Dyfrig Williams, Llangwryfon

Clwb Gorau yn y Barnu Stoc – Llangwryfon

Ffermwyr Gorau'r Flwyddyn

Elen Lloyd-Jones ac Endaf Griffiths, Pontsian.

Anrheg Goffa W.G.Hughes & W.D. Lewis

Elin Haf Jones, Llanwenog ac Iwan Davies, Llanddewi Brefi.

Ysgrifennydd Clwb Gorau

Angharad Davies, Penparc

Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith ryngwladol

Caryl Morris, Llanddeiniol a Lowri Jones, Lledrod;

Aelod mwyaf gweithgar y flwyddyn

Bleddyn Davies, Caerwedros;

Aelod iau mwyaf gweithgar y flwyddyn

Elin Rattray, Trisant

Clwb gorau yng

nghystadlaethau'r Sir 2018/19

1. Felinfach

2. Llanwenog;

Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2018/19

Llanddeiniol

Canlyniadau Terfynol y Rali:

1. Llanwenog 2. Felinfach a Penparc 4. Llangwryfon 5. Talybont 6. Trisant 7. Mydroilyn 8. Llangeitho 9. Tregaron 10. Pontsian

I gloi'r diwrnod, cafwyd dawns yn Ynysforgan lle daeth y band Gwilym a Dafydd Pantrod a'i fand i ddiddanu'r aelodau. Daeth y penwythnos prysur i ben gyda Chymanfa Ganu lwyddiannus yng Nghapel Rhydlywyd, Lledrod ar y Nos Sul, gydag aelodau Clwb Lledrod yn arwain a Bryan Jones yn cyfeilio. Artistiaid y noson oedd aelodau Clwb Lledrod,

Ysgol Gynradd Rhoshelyg a Parti Camddwr. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs John ac Elizabeth Griffiths, Waunhelyg, Lledrod. Ar ddiwedd y Gymanfa roedd C.Ff.I. Lledrod wedi paratoli lluniaeth yn sied Glandwr.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr CFFI Ceredigion yng Nghlwb Rygbi Llanbed nos Wener 14 Mehefin. Llonyfarchiadau i Glwb Caerwedros am ennill y Rygbi Tag a'r Rygbi 7 bob ochr.

Pob lwc i bawb a fydd yn cynrychioli'r Sir ym Mis Gorffennaf yn y Sioe Frenhinol!

Llanfair Clydogau

Ymddiheiriad

Hoffem ymddiheurio i Rebecca Millar, Cysgod y Coed, am anghofio cynnwys cyfarchion penblwydd hapus iddi mis diwethaf a hithau wedi cyrraedd 21 oed. Cofion cynnes iddi a phob lwc ac hapusrwydd am y dyfodol.

Noson Cwis

Trefnwyd noson o gwis ar nos Wener, Mehefin 14eg, yn y neuadd gan Anwen a Jonni Bell a'i ffrind Emily. Daeth digon ynghyd i gynnal pump bwrdd. Cafwyd noson hwylus gyda phawb wedi mwynhau a chrynhoi tipyn o wybodaeth diddorol. Diolch i bawb am eu hymdrechion ac i bawb a gymerodd rhan.

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Rhydian Quan, Swm yr Afon, am ennill y wobwr gyntaf am wneud pyped yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Hyfryd oedd gweld y pyped ar y teledu. Rydym i gyd yn proud iawn ohonot.

Cydymdeimlad

Hoffem gydymdeimlo â Annie Zaciewicz a Caroline Sinclair ar golli eu mam, Joan Sinclair yn ddiweddar a hithau wedi cyrraedd 92 oed. Hefyd trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Lee Janes ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Llinos, Jamie a'r teulu.

Gŵyl Gwrw

Am y trydydd tro ar ddeg cynhaliwyd ein gŵyl gwrw flynyddol o ddydd Iau i ddydd Sadwrn, Mai 30ain i Fehefin 1af. Fel arfer daeth lluo o bobol i'r neuadd i brofi blas nifer fawr o wahanol gwrw a seidir.

Mae'n syndod i drigolion lleol fod bobol o bell ac agos yn ymweld bob blwyddyn. Diolchwn unwaith eto i dîm brwdfrydig o dan arweiniad Leslie Stephens a Glennis Gratwick am eu gwaith o drefnu achlysur sydd mor llwyddiannus. Ar y nos Sadwrn, cynhaliwyd barbiciw blasus gyda ' pulled pork', baps, byrgers ac amrywiaeth o salads. Diolch i dîm o fenywod y pentref am baratoi y cyfan. Edrychwn ymlaen nawr i'r flwyddyn nesaf.

Gwersi Cymraeg - 'Welsh Can Be Fun'

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 8fed, cynhaliwyd bore o wersi syml i ddysgwyr wedi ei trefnu gan Eleri Davies, Pentre. Cafwyd bore llwyddiannus dros ben gyda 27 yn troi fyny a 20 o rhain yn ddysgwyr. Dechreuwyd y sesiwn trwy gymdeithasu dros baned a chacen. Dylan Lewis o Gwmann, sy'n athro Cymraeg yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman oedd yn cymryd y wers. Fel

rhan o'r profiad dangosodd ffilm o'r Eisteddfod Genedlaethol pan gafodd ei chynnal yn Llanbed yn 1984. Bu hyn yn brofiad gwerthfawr iawn gan na wyddai y rhan fwyaf o'r dysgwyr ddim am hanes na digwyddiadau yr eisteddfod. Pleser oedd cael sut rhyngweithad da rhwng y Cymry oedd yn bresennol a'r dysgwyr. Roedd pawb wedi cael hwyl ac yn gofyn ' Pryd mae'r sesiwn nesa?' Diolch o galon i Dylan am fore arbennig o lwyddiannus ac i Ann Morgan am ei chefnogaeth.

Diwrnod Hwyl i'r Teulu

Mae Pwyllgor Cronfa Eisteddfod Llanfair Clydogau a Chellan wedi trefnu diwrnod o hwyl i'r teulu ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg. Bydd y digwyddiadau yn cael eu rhannu rhwng Llanfair a Chellan, ac yn dechrau yn Llanfair am 11y.b. gyda bowlïo yn y neuadd, rownderi neu griced y tu allan a mabolgampau i'r plant. Bydd bywyd ar werth yn ystod hanner dydd ac am 1.30 y prynhawn bydd ras neu gerdded i Gellan. Yn y prynhawn bydd digwyddiadau a chwaraeon yn cymryd lle yn neuadd Cellan gyda chorlan chwarae Dyfodol i'r plant iau. Am ddau o'r gloch bydd cystadleuaeth targedu yn LlwynOnn. Bydd yna de prynhawn gyda mefus a hufen ia ac i gloi y dydd bydd barbiciw a band 'Lost the Plot' (Free Beer) yn chwarae. Am ragor o wybodaeth bydd posteri o amgylch, a bydd cynllun y dydd ar y we, yn siop Llanfair neu gyda Alwen neu Lilian yng Nghellan.

Diwrnod cyffrous i edrych ymlaen amdano!

Sioe Llanfair

Hoffwn ddweud fod Sioe Llanfair yn edrych ymlaen i ddathlu eu chanmlwyddiant ond mae hynny ddim yn wir ! Er bod y sioe gyntaf wedi ei chynnal yn 1919, ar gychwyn yr ail ryfel byd daeth y sioe i ben. Pum mlynedd yn ôl fe benderfynwyd ail gychwyn y sioe ac mae wedi bod yn llwyddiannus dros ben oddi ar hynny. Eleni bydd y sioe yn cael ei chynnal fel arfer ar ddydd Llun, Gŵyl y Banc, mis Awst. Edrychwn ymlaen i weld tipyn o gystadlu brwd a lluo o ymwelwyr. Bydd y rhestr allan cyn bo hir ac ar gael o'r neuadd neu o siop Llanfair. Mae'r rhestr hefyd i'w chael ar 'facebook' Llanfair.

£17.50 yw pris
Tanysgrifiad Blwyddyn
Papur Bro Clonc.
Beth am ei brynu fel

anrheg?
Cysylltwch â

Mary Davies,
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Arddangosfa Gelf



Mae ein harddangosfa gelf eleni yn cael ei chynnal am y pumed gwaith yn y neuadd ar Orffennaf 25, 26, 27 a 28 ain, dydd Iau, Gwener, Sadwrn a dydd Sul. Byddwn ar agor yn hwyr, hyd 8.30 ar y nos Wener gyda'r artistiaid i gyd yn bresennol a gwin i'w fwynhau. Bob dydd arall byddwn ar agor o 11y.b. hyd 6 y.h. gyda the, coffi a chacennau ar werth bob dydd. Yr artistiaid eleni fydd Aerwen Griffiths, Ali Scott, Claire Parsons, Cynthia Westney, Christine Clarkson, Dodie a Jamie Herschel, a Sue Powell. Ein hartistiaid gwadd eleni fydd Lisa a David Hardy, Caeglas, Heol Llanfair, a Robert Blaney, o Bontsian. Bydd amrywiaeth eang o waith yn cael eu harddangos fel arfer. Dilynnwch ni ar facebook --www.facebook.com/grwpLlanfairClydogauGroup. Dewch i'n gweld a chymdeithasu dros baned a chacen. Croeso mawr i bawb.

O San Steffan gan Ben Lake AS



Dwi wedi dysgu dros y ddwy flynedd diwethaf, bod dyfalbarhad a phenderfynoldeb yn rhinweddau sydd angen ar bob Aelod Seneddol gwerth ei halen, yn enwedig yr aelodau hynny sy'n cynrychioli ardaloedd cefn gwlad.

Ers cael fy ethol yn 2017, un o'r materion sydd wedi bod yn flaenoriaeth i mi yw sicrhau mynediad etholwyr a busnesau at wasanaethau bancio, ac mae'n siŵr gen i y byddaf yn cael fy adnabod am flynyddoedd i ddod fel Ben Bachan y Banciau, cynifer o weithiau dwi wedi codi'r mater ar lawr y siambr, mewn cyfarfodydd ac mewn colofnau papurau bro!

Ond y gwirionedd yw bod dros 200 o fanciau wedi cau yng Nghymru ers 2008 ac mae'r nifer o drefi sydd bellach heb unrhyw fanc yn cynyddu'n fawrychus o gyflym, ac mae'n rhaid gweithredu ar fyrder er mwyn llenwi'r bwlch sydd wedi ei adael gan fanciau'r stryd fawr.

Dwi wedi bod yn cydweithio'n agos gyda grŵp trawsbleidiol o Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau gwledig dros y misoedd diwethaf, ac yn ddiweddar bu i ni gyfarfod ag Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys i drafod cau canghennau banc a chyflwyno'r achos o blaid datrysiadau arloesol megis canolfannau bancio cymunedol.

Mae'r syniad o sefydlu canolfannau cymunedol lle gall gwahanol fanciau gydleoli eu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn un sydd yn cael ei gefnogi'n eang erbyn hyn. Mae'n galonogol gweld bod yna gynllun peilot ar fin cael ei dreialu (yn Lloegr yn anffodus) fydd yn sefydlu 6 hwb bancio busnes, gan ddod â nifer o wasanaethau bancio a gwasanaethau ariannol dan yr un to. Yr hyn sydd angen ei wneud nawr yw treialu'r peilot yma mewn ardaloedd gwledig, a byddaf yn pwyso am i hyn ddigwydd ochr yn ochr â fy nghydweithwyr yn San Steffan.

Un datblygiad calonogol arall yw'r cynlluniau i sefydlu banc cymunedol yng Nghymru, sef Banc Cambria. Mae Banc Cambria yn cael ei ddatblygu gan y grŵp Banc Cyhoeddus i Gymru. Bydd yn fanc i Gymru gyfan fydd yn gweithredu fel banc arferol, ond yn berchen i aelodau ac mae'r grŵp eisoes wedi sefydlu cymdeithas gydfuddiannol fydd yn gweithio tuag at wneud cais am drwydded fancio o fewn y ddwy flynedd nesaf.

Yn y cyfamser, dwi'n bwriadu dyfalbarhau gyda'r ymgyrch bwysig hon, gan fynnu gwell gwasanaethau bancio lleol i'n trefi a'n cymunedau cefn gwlad – wedi'r cyfan, dyfal donc a dyr y garreg.

Sefydliad y Merched Coedmor

Croesawodd y Llywydd Elma bawb i gyfarfod mis Ebrill ar nos Lun y 1af. Cydymdeimlodd ag Avril ar golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Ruthie Williams – fe fu yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r gangen am rai blynyddoedd, hefyd cydymdeimlodd â Noleen ar farwolaeth ei thad yn San Clêr. Yna symudodd ymlaen i groesawu ein gŵr gwadd sef Huw Richards o Lwynpïod, mae yn arddwr penigamp ac wedi ymddangos ar rhaglen Heno, ac roedd hanes diddorol iawn amdano yn y 'Guardian' a'r 'Mail'. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn garddio ers yr ysgol gynradd. Mae ganddo 100mil o bobl ar eu 'Youtube' ac ati mor bell â Rwsia, Brasil, Awstralia a thros y byd, ac maent yn ddolchgar am bob cyngor ar sut i dyfu llysiau mewn lotments heb balu'r pridd. Hefyd eglurodd ynglŷn â bacteria a defnyddio compost organig. Mae wedi ysgrifennu ei lyfr 1af 'Veg in one bed' ac wedi gwerthu dros pum mil o gopiau sydd yn record. Diolchodd Bethan iddo am noson hwyliog ac addysgiadol iawn. Cafwyd cwpanaid o dê wedi ei baratoi gan Avril a Gwyneth. Cafwyd pwyllgor byr i ddilyn a phenderfynwyd ail drefnu trip mis Gorffennaf. Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno â Sefydliad y Merched, Cellan – roedd gan Elma, Iona a Mary ddiddordeb. Enillwyd y raffl ar ddiwedd y noson gan Mary.

Croesawodd yr is-lywydd Mary bawb i gyfarfod mis Mai yn Festri Bethel. Aeth ymlaen wedyn i groesawu y wraig wadd sef Nema Edwards o Langain a'i ffrind Diane – mae Nema yn wraig brysur tu hwnt, Cadeirydd y pwyllgor 'Arts and Leisure', trefnu tripiâu o bob math, canu mewn côr, llywydd S.Y.M. Newchurch. Roedd wedi ymddiddori ers dwy flynedd mewn gwahanol gemwaith. Cawsom ganddi arddangosfa ddiddorol, wrth iddi ddangos sut oedd gwneud gemwaith, a'r gwahanol bethau oedd yn ei ddefnyddio. Roedd wedi dod â chasgliad o'i gwaith ganddi, a chafwyd cyfle i brynu os oedd gennych ddiddordeb. Dywedodd ei bod yn 'hobi' ddrud ond yn ddiddorol iawn. Diolchodd June iddi am noson ddiddorol dros ben. Cafwyd cwpanaid o dê wedi ei baratoi gan Glesni a June. Enillwyd y raffl gan Gwen. Cafwyd cyfarfod busnes byr i ddilyn – Elma yn mynychu cyfarfod blynyddol ein sefydliad yn Bournemouth ac fe fydd cyfarfod yr Hydref o Grŵp Teifi yn Llandysul ar Hydref 21ain.

Enillwyr Misol Clwb 125 Neuadd Sant Iago Cwmann Mis Mehefin 2019

1. Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni, 21. 2. Dinnie Hardy,

Cwrt-Deri, Cwmann, 09. 3. Marian Thomas, Brondeifi, Cwmann, 66. 4. Mr & Mrs T. Brennand, Pant-Y-Nos, Cellan, 101. 5. Rhidian Lloyd, Penybont, Pumsaint, 31. 6. Annie Jones, Arfryn, Cwmann, 63. 7. Llinos Jones, Araul, Cwmann, 17.

Penblwydd Hapus

Penblwydd Hapus i Glesni Thomas, Rhif 1 Heol Hathren ar ddatlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cwmann yn cyrraedd y 'Catwalk'

Llongyfarchiadau mawr i Heini Thomas, Hathren sydd wedi gwneud yn arbennig o dda ym myd ffasiwn, gyda'i gwaith wedi cael ei arddangos ar y catwalk yng Nghaerfaddon, a bu nifer o deulu a ffrindiau yno i'w chefnogi. Pob hwyl iddi yn y dyfodol.

Ras Cwmann

Bydd ras hwyl i blant ac oedolion yn cael ei chynnal nos wener 5ed o Orffennaf ar gae'r pentref, gyda rاس y plant yn dechrau am 6.30 a ras 5 milltir yr oedolion i ddechrau am 7.30yh. Bydd bwyd a diod ar werth. Dewch yn llw i gefnogi.

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafwyd diwrnod o fabolgampau rhagorol ar ddiwrnod braf ar gae Pentref Cwmann ar y 21ain o Fehefin.

Enillwyr y medalau am y pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen oedd Megan Lloyd, Celt Davies, Leighton Davies ac Ifan Jones.



Yng Nghyfnod Allweddol 2 yr enillwyr oedd Casi Gregson, Ellie Gregson ac Isaac Davies.



Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd. Agos iawn oedd y cystadlu ond Teifi a gipiodd tlws y tŷ gorau ar ddiwedd y dydd.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn cychwyn ar eu haddysg yn yr ysgol Uwchardd ym mis Medi sef Casi, Brooke, Alexi, Seren, Lilly, Ruby, Morgan, Dion,



Rhodri, Ryan Jones, Roland, Cai, Elin, Hannah, Kyra, Steffan, Ryan Ashley, Rhys, Ronnie, Gary ac Oliver. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr iawn a diolch yn fawr iawn i chi am eich holl ymroddiad i fywyd Ysgol Carreg Hirfaen ar hyd y blynyddoedd.

Yn ystod y tymor diwethaf bu unigolion o'r ysgol yn brysur yn ymarfer ar gyfer cyngerdd offerynnau Proms Sir Gaerfyrddin. Bu Rhys a Roland yn chwarae'r gitâr a Christopher, Tomos, Megan, Sioned a Lois Alaw yn chwarae'r recorder. Bu llawer o waith dysgu ac ymarfer, ac roedd yn bleser eu gweld ar lwyfan fawr y Theatr yn rhan o grŵp offerynnau Ieuenctid Sir Gâr.

Llongyfarchiadau mawr i Rhodri Williams ar gael ei ddewis yn aelod o Gôr Only Kids Aloud. Arbennig.

Cawsom wahoddiad i gymryd rhan yn nhwrnmet Pêl-droed Sêr Dewi yn ddiweddar. Chwaraeodd y plant yn arbennig o dda yn erbyn ysgolion ar draws Ceredigion ac ennill oedd hanes tîm y merched â'r bechgyn yn colli mewn ffeinal agos iawn yn erbyn Bro Pedr. Llongyfarchiadau hefyd i fechyn tîm A am gyrraedd y rownd cyn derfynol.

Ym Myd Athletau dymunwn longyfarch Casi Gresgon am ddod yn gyntaf yn Ras 100m ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cynradd Dyfed yn ddiweddar. Tipyn o gamp Casi. Llongyfarchiadau anferthol i ti.

Cynhelir Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen eleni ar ddydd Gwener, Gorffennaf 12fed. Mae croeso cynnes yma i bawb – bydd y gweithgareddau yn cychwyn am 4yp.

Prosiect Fformiwla 3D

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 22ain, aeth tîm o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Carreg Hirfaen i Gaerfyrddin i gystadlu mewn ras arbennig iawn.

Dros y 6 mis diwethaf bu disgyblion wyth o ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yn defnyddio Argraffwr 3D arbennig i greu car rasio fel rhan o Brosiect Fformiwla 3D. Dydd Sadwrn oedd uchafbwynt y fenter wrth i'r ysgolion ymgynnull ar Felodrom Parc Gaerfyrddin i gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn gŵyl o rasio.

Cafwyd gyrru campus yn ystod yr ŵyl a char Carreg Hirfaen yn hedfan o gwmpas y trac tan reolaeth Oscar Harries, Tomos Green a Roland Weedon. Yn anffodus, efo dwy lap o'r ras yn weddill, bu'r car mewn gwrthdrawiad efo car ysgol arall a'r canlyniad oedd colli olwyn oddi ar yr echel ôl.

Er y siom o golli safle da yn y ras cafwyd llawer o hwyl yn ystod y dydd a bu'r holl brofiad o adeiladu'r car yn un bythgofiadwy i'r plant, yn brofiad gwerthfawr sydd wedi bod yn sbardun i nifer o'r disgyblion i gymryd gwir ddiddordeb ym maes technoleg ddigidol. Mae menter Fformiwla 3D wedi bod yn agoriad llygad i bawb ohonom a dweud y gwir, a'r cyflymdra y mae technoleg byd diwydiant yn symud ymlaen ac yn datblygu wedi ein syfrdanu.

Braf o beth felly yw bod plant Carreg Hirfaen trwy haelioni Lloyd Motors Aberaeron a'r holl noddwyr eraill lleol, a thrwy frwydydd ac arbenigedd Dimitris Pletsas a staff Adran Beirianneg Prifysgol Abertawe, wedi cael y cyfle gwych hwn i fod yn rhan o'r fenter gyffrous yma.



Hoffai pawb sydd yn gysylltiedig â Charreg Hirfaen ddiolch yn fawr i'r trefnwyr, ac i'n noddwyr i gyd am eu haelioni wrth gefnogi yr ysgol yn y fenter.

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnwydd,

01570 434 243

07815 962 045

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherfferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns WELSH GIFTS

Llanbedr Pont Steffan

**COFRODDION A CHERDIAU CYMREIG
PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU
GWNEUD A LLAW YN EIN GWETHDY**

DELWCH I YMWELD A'N ADRIAN BRIODASAU NEWYDD
01570 423884

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbedr
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Cwmann



Aelodau C.F.F.I. Cwmann yn y cinio blynyddol yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg Caerfyrddin.

Enillwyr Misol Clwb 225 Pwyllgor Pentref Cwmann Mis Mehefin 2019

1. Rhian Jones, Hafod, Cwmann, 152.
2. Carl & Meinir Douglas, Heol Maestir, Llanbedr, 144.
3. Mr & Mrs Templeman, Bryngolau, Cwmann, 223.
4. Danny & Ann Davies, Brynteify, Cwmann, 80.
5. Huw & Rose Jones, Pantycelyn, Cwmann, 56.
6. Sian Jones, Bryndolau, Cwmann, 16.
7. Llion Herbert, Cysgod-Y-Coed, Cwmann, 191.



Aelod Iau C.F.F.I. Cwmann Lowri Davies ac Aelod Hŷn C.F.F.I. Cwmann Gethin Davies.

Côr Cwmann a'r Cylch



Dyma Côr Meibion Cwmann a'r cylch gyda eu harweinydd Elonwy Davies a'u cyfeilydd Elonwy Pugh Huysmans yn diddanu'r gynulleidfa yn eu Noson Mefus a Hufen yng Nghlwb Bowlio Llanbedr nos Wener 28 Mehefin. Cafwyd noson arbennig gyda'r Côr ac unawdwyr ifanc lleol yn codi arian i Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 trwy Gronfa Apêl Lleol Llanbedr.

Gorsgoch

Priodas Hapus

Priodas dda i Rhian (Wilson) a James Llewellyn ar eu priodas. Pob hapusrwydd a dymuniadau da i chi i'r dyfodol.

Pen-blwydd Priodas

Pen-blwydd priodas hapus i Dannie a Martha Davies, Llaingors ar ddathlu 65 mlynedd o briodas.

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacenau
Dathliadau
Partion

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk



Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbedr

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Wythnos yn Llanbedr fydd

Digwydd edrych ar y silffoedd llyfrau o'n i a meddwl ei bod hi'n bryd cael chydig o drefn. A dyna pryd y sylwais i ar deitl nofel Islwyn Ffowc Elis, Wythnos yng Nghymru Fydd. A meddwl ... be' am Llanbedr.

Mae yna ddwy hanner i nofel Islwyn; un yn dychmygu Cymru berffaith yn y dyfodol, y llall yn dychmygu hunllef. Hanner yr hunllef sydd wedi cydio ym meddyliau pobol a'r hen wraig yn Y Bala yn graddol gofio rhyw ychydig o'r drydedd salm ar hugain ... yr ola' o'r siaradwyr Cymraeg.

Mae'n ddigon posib mai ar strydoedd Llanbedr y bydd yr olygfa yna'n digwydd yn y pen draw ond mae'n rhaid dal i obeithio mai hunllef ydi hi. Ond tybed beth fyddai'r ddau ddarlun o ardal Clonc petaen ninnau'n trio dychmygu'r lle ymhen rhyw hanner can mlynedd?

Hunllef

Yn wahanol i Islwyn Ffowc, dw i am ddechrau efo'r ochr dywyll. Ond, fel y gwnaeth o, cymryd elfennau o bethau sy'n digwydd eisoes a'u hymestyn nhw i'r dyfodol.

Yn debyg i'w Gymru dywyll o, mi allwch chi ddychmygu y bydd yna goed ymhobman. Mae llywodraethau eisoes yn sôn am hynny a does dim llawer o beryg mai ar erwau gleision de-ddwyrain Lloegr y bydd y rheiny'n cael eu plannu.

Oedd yna raglen radio y diwrnod o'r blaen yn trafod ffermydd pysgod ar gyrion Llundain ac mae'r papurau wedi sôn am ddatblygu cig mewn labordy. Yn Llanbedr Fydd, mi fydd hyd yn oed ffermio a physgota wedi symud i'r dinasoedd.

Pwy fydd yma ymhen hanner can mlynedd? Chydig o ffermwyr yn tyfu silwair i'w anfon i ffatrïoedd gwartheg ar gyrion trefi. Ac ambell un yn cynhyrchu cig go iawn a fydd, erbyn hynny, yn sbesialiti drud.

Mi fydd angen ychydig o bobl hefyd i ddarparu ar gyfer yr holl ymwelwyr ... y beicwyr tir gwyllt a'r gyrwyr 4x4 a'r gwylwyr adar ac anifeiliaid a fydd yn dod yma i fwynhau'r bywyd gwyllt cyn troi'n ôl i ddiogelwch y sybyrbs. Wrth gwrs, fydd dim angen Cymraeg.

Hyn i gyd wedi ei led-gynllunio gan lywodraethau a fu'n canolbwyntio twf economaidd ar rai ardaloedd a throï cefn gwlad yn fan hamdden i'w trigolion nhw. Peiriant economaidd y cwmnïau mawr rhyngwladol fydd y ffactor arall.

Breuddwyd

Gobeithio bod dewis arall. Mae'n fwy anodd dychmygu Llanbedr ffyniannus y dyfodol, oherwydd bod hynny'n golygu mynd yn groes i dueddiadau'r dyddiau yma.

Ac fel pob Bywyd Fydd, mae dyfodol gobeithiol yn dibynnu ar weithredu'n awr. Mae'n golygu edrych ar gefn gwlad, nid fel lle cyfleus i bobol y dinasoedd symud pan fyddan nhw wedi cael llond bol neu le i ddod ar benwythnos, ond fel cymunedau byw.

Mae'n golygu defnyddio pethau fel y system dreth i newid y ffordd y mae ein economi ni'n gweithio; i wneud yn siŵr, er enghraifft, fod elw bywyd yn aros efo'r cynhyrchwyr a bod y diwydiannau prosesu bywyd yn yr ardaloedd hynny hefyd.

Mae'n golygu hameisio adnoddau lleol er lles pobol leol. Sicrhau mai ni sy'n cael y budd o wynt a dŵr a haul; ers canrif neu ddwy, mae byd natur wedi cael ei droi'n beth masnachol (yn dir, coedwigoedd ac afonydd) ond, i raddau helaeth, pobl o bell sy'n elwa.

Mi fyddwn ni wedi edrych ar pa wasanaethau ac adnoddau sy'n gweithio'n well o'u cael nhw'n lleol – fydd dim angen anfon i bellteroedd Lloegr i chwilio am saer coed neu drydanwr a fydd faniau ddim yn cario nwyddau sylfaenol o bellteroedd byd.

Cymraeg fyddai iaith y Llanbedr fydd obeithiol oherwydd mai dyna sy'n gwneud sens ... dyna'r iaith sy'n clymu pobl efo'r ddacae'r hanes sydd ynghlwm wrthi. Mi fydd pobl sy'n symud i mewn i'r ardal wrth eu bodd yn ei dysgu er mwyn bod yn rhan o'u cymunedau.

Yr eironi ydi mai hunllef a allai greu'r breuddwyd. Os bydd newid hinsawdd yn parhau, mi fydd rhaid i ni newid.

PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Gwasanaethau Coed Llanbedr



Cae Celyn, Heol Llanfair,
Llanbedr, SA48 8JX
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewislewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbedr, Heol Tregaron,
Llanbedr.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

WILLIAMS
& **BOURNE**
CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford,
Llanbedr

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

CANOLFAN ADDURNO

AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrim, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenwi,
gwasanaeth terri allweddol a
pleiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Wel shwmae? Mae'r haul yn dechrau gwenu ac mae blodau a llysiau yn yr ardd yn tyfu'n dda. Gobeithio os bydd hi'n parhau'n braf y cawn ni gyfle i fynd mas i chwarae i'r ardd ar y llithren a'r siglen, heb anghofio neidio lan a lawr ar y trampolin wrth gwrs! Ond cofiwch bod yn ofalus a gwrando ar oedolyn.

Wel cefais sawl cranc bach oren dros yr wythnosau olaf yma. Roeddwn yn hoffi llun Sara Fflur Pugh o Ystrad Meurig. Ond y llun taclusaf oedd un Guto Hedd Davies, Llys Helyg, Llanbedr Pont Steffan. Da iawn i bawb a llongyfarchiadau mawr i ti Guto Hedd!

Un diwrnod braf yr wythnos ddiwethaf fe wnes i grwydro ar draws y cae at Ffion y ffermwr oedd yng nghanol y cae yn cywain gwair. Roedd Cen y contractiwr wedi dod draw i ladd gwair a belo. Roedd llond cae o fêls yno a bûm wrthi drwy'r dydd yn eu cywain i'r tŷ gwair. Am ddiwrnod prysur! Beth am fynd ati i liwio llun Cen y contractiwr a'i lwyth o wair? Cofiwch ei ddychwelyd ataf cyn dydd Gwener, Awst 23ain. Mwynhewch eich gwyliau haf!

Ta ta tan toc.



Enillydd
ymis!

Guto
Hedd
Davies


Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio symudol
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael

Bar symudol ar gyfer
digwyddiadau allanol
boed yn fawr neu'n fach



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plantyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor arllannd i chi?

Os ydych wedi atal gwasanaeth banc ac mae'n eiddoedd gwasanaeth, gallaf eich cynnig cyngor.

Gyda thro 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynllunio a Rheddu - Yswiriant a Ddiogel - Cynllunio ar gyfer ymddangosiadau
Taliadau teith - Rheoli Ffôn - Mergolau ar Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor arllannd yn eiddoedd gwasanaeth.

Richard Owen Jarman Dip CIL, Cert CIL(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

True potential
wealth management.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid
gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn
cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref
ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

6			4			8		
2		5		1	9			
1								
3				4				2
		9	1		3	5		
5				8				6
								8
			8	2		3		4
		2			1			9

Swdocw Mehefin

Llongyfarchiadau i:

Heulwen Pugh,

Ffair Rhos, a diolch i

bawb arall am

gystadlu:

Avril Williams, Cwmann;


John Bevan, Felinfach

a Richard Evans,

Llangybi.

7	9	2	1	3	6	5	4	8
8	6	1	2	4	5	3	7	9
4	3	5	9	8	7	2	6	1
5	7	9	3	1	8	4	2	6
1	4	6	7	9	2	8	3	5
3	2	8	6	5	4	1	9	7
9	8	7	4	2	1	6	5	3
6	5	4	8	7	3	9	1	2
2	1	3	5	6	9	7	8	4

Tim Rygbi Ieuenctid Llambed a Sali Mali yn 50 oed



Cafodd tîm rygbi ieuenctid Llambed dymor llwyddiannus iawn eleni gan gipio Cwpan Ieuenctid Ceredigion yn ogystal â ennill Bowlen Cynghair Sir Gâr. Da iawn bois.



Yn noson wobrwyo a chinio blynyddol Tim rygbi ieuenctid Llambed cyflwynwyd gwobrau i nifer o'r chwareuwyr gan Lywydd y clwb sef Mr Brian Evans – Da iawn Dafydd Lewis, Ewan Bowden, Ifan John Davies, Ryan Mackie Jones, Osian Jones.



Disgyblion Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Dyffryn Cledlyn wedi gwisgo i fyny fel Sali Mali neu yn oren i ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn ystod mis Mehefin.

LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR

**CYFRIFWYR
SIARTEDIG
ICAEW**

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB



CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecks * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Mabolgampau Ysgolion yr ardal a Thwrnamaint Pêl-droed



Mabolgampau Ysgol Dyffryn Cledlyn.



Llongyfarchiadau mawr i Casi Gregson a enillodd chwaraewraig y twrnamaint dan 14 yn nhwrnamaint Tregaron.



Hugo Douglas a enillodd chwaraewr y twrnamaint dan 12 yn nhwrnamaint Boncath.



Ysgol Y Dderi.



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-droed dan 8 Llambled am ennill twrnamaint Llambled.



Ysgol Llanllwni.



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-droed dan 14 Llambled am ennill twrnamaint Tregaron.



Ysgol Carreg Hirfaen.



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-droed dan 16 Llambled am ennill twrnamaint Llambled,